# Y DINESYDD

Mawrth 2025 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 495 £1.50





## Adroddiad o Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd - tud. 6 - 9

## Lluniau Gŵyl Dewi yn y Ddinas - tud. 19

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Hefin Mathias**

***Golygydd Ebrill***
***Dr Elen Ifan***
Cyfraniadau erbyn **27 Mawrth** at:
e_ifan@hotmail.com
07866 107729

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Dr David Charles
david.charles1040@gmail.com
7 Vaughan Avenue, Llandaf,
Caerdydd, CF5 2HR

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


**O'r Pwyllgor**

**Wele newyddion da i'r tanysgrifwyr ar gyfer 2025/26 – penderfynwyd rhewi'r prisiau am flwyddyn yn ein pwyllgor yn festri Salem Treganna ddechrau mis Rhagfyr.**

**£15 felly yw'r pris i'r mwyafrif heblaw am tua dwsin sy'n derbyn copi trwy'r post sef £25. Ond y gwir gost yw o leiaf £35. Bydd croeso i chi dalu mwy na £25 os dymunwch – fel gwnaeth rhai llynedd – diolch i chi!**

**Gwelir yma ar dudalen rhif dau, ac ar y ffurflen danysgrifio newydd 2025/26, taw Dr David Charles, Llandaf, yw'r swyddog tanysgrifiadau newydd.**

**Byddai'n gymorth mawr i David ar gychwyn ei dymor, pe baech chi'r tanysgrifwyr yn gwneud yn siŵr eich bod yn llenwi'r ffurflen yn gywir – yn enwedig y rhai sydd heb wneud hynny ers rhai blynyddoedd a dychwelyd y ffurflen. Mae llawer o daliadau yn mynd drwy'r banc ar ddechrau mis Ebrill. Llynedd gwelwyd sawl £8, £10 neu £12 ond ers mis Ebrill 2024 ni ddylai unrhyw un fod yn talu llai na £15.**

**Mae yna newyddion da hefyd parthed golygyddion newydd. Diolch i Marged Cartwright am ei chymwynas yn golygu rhifyn mis Chwefror. Bydd Dr Elen Ifan yng ngofal rhifyn mis Ebrill ac Annell Dyfri, aelod newydd o'r pwyllgor, yn golygu rhifyn gobeithio yn ystod y flwyddyn.**

***Gwilym Dafydd***

**Nid yw pwyllgor *Y Dinesydd* o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan y cyfranwyr**.

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd Frenhinol
**TEGANNAU ALBATROS**, 10 Arcêd Morgan
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



*"Mae hi'n drydydd mis yn 2025 yn barod"*

Mae hi'n drydydd mis yn 2025 yn barod ac eisoes mae llu o ddigwyddiadau wedi digwydd i'n cyffroi neu'n tristáu yn ystod y cyfnod hwn i gadw ein sylw! Ond diolch byth mae'r Gwanwyn yn y tir bellach i godi ein calonnau gyda Chymru yn fôr o felyn hefo miloedd o gennin Pedr yn tyfu ymhob man.

Cafwyd dathliadau Gŵyl Ddewi ymhob cwr o Gymru ac ymhellach odd yn ein hannog i fod yn gefn i'r Gymraeg a'i diwylliant er gwaethaf popeth a chalonogol odd clywed yng Nghaerdydd am ehangu Ysgol Gymraeg y Mynydd Bychan yn ardal Gabalfa oherwydd y galw, sy'n golygu bydd yr ysgol hon yn symud o'i safle presennol i safle Ysgol Gynradd Allensbank a hynny ym mis Medi.

Mae ysgol arall yng Nghaerdydd yn cael pennaeth newydd ym mis Medi sef Ysgol Howells yn Llandaf a sefydlwyd nôl yn 1860. Bydd Sally Davies y pennaeth presennol yn ymddeol a'r pennaeth newydd fydd Laura Beynon sy ar hyn o bryd yn ddirprwy bennaeth mewn ysgol annibynnol i ferched ym Mryste. Dydy llawer o ysgolion annibynnol yng Nghymru ddim yn rhoi unrhyw sylw i'r Gymraeg ond ar hyd y blynyddoedd mae Ysgol Howells wedi cynnig Cymraeg yn bwnc yn yr ysgol. Bu Elinor Talfan Davies a Charlotte Church yn ddisgyblion yn yr ysgol hon.

Eleni bydd Plaid Cymru yn dathlu ei sefydlu gan mlynedd yn ôl pan ddaeth dwy garfan o genedlaetholwyr ynghyd yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli yn 1925 i sefydlu Plaid Genedlaethol Cymru ond newidiwyd yr enw gwreiddiol i Plaid Cymru yn 1945. Daeth Saunders Lewis yn Llywydd y Blaid newydd rhwng 1926 a 1939. Yn anffodus ni fydd dau o ddylanwadwyr y Blaid dros y blynyddoedd yn y dathlu gan i Emrys Roberts, ysgrifennydd cyffredinol y Blaid, farw yn Ionawr ac yntau yn 93 oed a Dafydd Elis-Thomas, Llywydd cynta y Cynulliad ym Mae Caerdydd, farw yn Chwefror yn 78 oed. Bu yn y swydd o 1999 hyd at 2011 a chyflawnodd y swydd gydag urddas a thrylwyredd gan roi statws i'r swydd ar ddechrau pennod newydd yn hanes Cymru.

Nôl ym Medi 2023 gwnaeth rhywun neu rywrai anghyfrifol dorri coeden sycamorwydden enwog odd yn sefyll ar Wal Hadrian yn Northumberland ac odd yn denu pobl o bell ac agos i dynnu ei llun. Penderfynodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wahodd unigolion, grwpiau, ysgolion ac ati i wneud cais am lasbren o'r goeden wreiddiol i'w dyfu yn eu hardaloedd er cof am y goeden wreiddiol odd wedi rhoi cymaint o bleser i bobl. Cafwyd bron 500 o geisiadau a buodd Ysgol Gynradd Rhiwbeina yn y ddinas yn un o'r rhai lwcus, felly bydd y goeden fach yn cael ei phlannu ar gae'r ysgol gan obeithio y bydd yn tyfu'n goeden braff dros y blynyddoedd, fel yr un wreiddiol.

Eisoes soniwyd yn y golofn hon am yr ymdrechion codi arian i sicrhau dyfodol i'r eglwysi hynafol yn Llanilltud Fawr a Llangollen a rwan mae Castell Cyfarthfa ym Merthyr Tudful, sy'n blas mewn gwirionedd, yn ceisio arian i gadw'r adeilad eiconig hwn rhag dirywio bellach. Adeiladwyd y castell nôl yn 1825 gan William Crawshay perchennog cyfoethog y gwaith haearn yn y dre ac ers blynyddoedd bellach mae amgueddfa wedi bod ar y safle ac Ysgol Uwchradd. Byddai'n drueni gweld yr adeilad yn diflannu gan ei fod yn bwysig yn hanes Merthyr. Ond mae prinder arian yn anffodus yn yr hinsawdd bresennol sy'n golygu ei fod yn waith caled i ddarganfod cyllid digonol i ddiogelu'r adeilad.

Yn ddiweddar cyhoeddodd Geraint Thomas, y seren yn y byd seiclo, ac yntau yn 38 oed bellach, ei fwriad i ymddeol o'r gamp ar ddiwedd y tymor seiclo hwn. Rhoddodd Gymru ar y map gan iddo ddisgleirio yn y gamp a diau pinacl ei yrfa oedd ennill Râs y Tour de France nôl yn 2018. Cafodd groeso brwdfrydig yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd ym Mae Caerdydd cyn iddo seiclo oddi yno i dderbyn croeso o flaen y castell gan filoedd o'i edmygwyr. Ei fwriad cyn ymddeol fydd rasio yn y *"Tour of Britain"* sy'n dechrau a diweddu yng Nghaerdydd. Yna bydd o a'i deulu yn dychwelyd i fyw yng Nghaerdydd.

Tan y tro nesa byddwch yn wych!



*Gwilym yn dathlu ei ben-blwydd*

I G.R.ar ei ben-blwydd yn 90 oed

Doeth ei air fel cadeirydd, a difyr
yw'n dyfal golofnydd,
a'i naws rasol, siriol sydd
yn ased i'r *Dinesydd*.

*ED*

# Merched y Wawr Caerdydd

Brynhawn Mawrth 11 Chwefror, treuliasom awr ddifyr yng nghwmni Ruth, Siân a Gemma'r ci. Mae Ruth Evans o Sir Gâr wedi gwirfoddol ers blynyddoeded gydag elusen Cŵn Tywys y Deillion. Hi bellach yw Rheolwr Codi Arian y mudiad yng Nghymru.

Mae'r elusen yn bridio, magu a hyfforddi'r cŵn yn eu canolfan yn Llaneirwg, ac yn gweithio gyda'r perchnogion am hyd at ddeng mlynedd tra bydd y cŵn yn gweithio. Y cŵn tywys mwyaf addas yw croesfridiau labrador, labradwdl, adargŵn melyn a chŵn Alsás. Mae hyn oll yn broses gostus – tua £65,000 am bob ci o'r cyfnod bridio ac ar hyd y deng mlynedd gyda'r perchennog. Wrth reswm felly, mae'r ymgyrchoedd codi arian yn fater o'r pwys mwyaf. Gwaith Ruth yw cydlynu gwaith y gwirfoddolwyr ledled y wlad a hybu a datblygu ymgyrchoedd codi arian. Byddai'n dda ganddi ddod i siarad ag unrhyw fudiad neu ysgol am ei gwaith.



Esboniodd Ruth fod y mudiad yn gwneud llawer mwy na hyfforddi cŵn. Eu prif nod yw helpu pobl sydd â nam ar y golwg, a'u teuluoedd, i fyw'r bywyd maen nhw eisiau. Clywsom hanesion am y modd mae cael cŵn tywys wedi rhoi annibyniaeth ac ymdeimlad o hunaniaeth i'w perchnogion.

Mae Siân yn hyfforddwr cŵn tywys a disgrifiodd hithau'r broses o baratoi cŵn ar gyfer ei rôl. Caiff y cŵn bach eu magu a'u hyfforddi heb unrhyw orfodaeth, gan ddefnyddio system o wobrwyo ymddygiad cywir dro ar ôl tro. O'r diwedd, cawsom ein cyflwyno i Gemma, y labradwdl. Roedd Siân wedi bod wrthi'n hyfforddi Gemma ers 12 wythnos ac yn barod, gwelsom sut oedd wedi dysgu i wisgo'r harnais, i ymateb i orchmynion llaw a llais, ac i osgoi rhwystrau ar hyd y llwybr dewisol. Gyda'i chymeriad annwyl a chwareus, Gemma oedd seren y prynhawn!

Ym mis Mawrth, bydd ein cyfarfod yn dechrau am 7.00pm. Bu'r arbrawf o gynnal sesiynau yn y prynhawn yn ystod misoedd tywyllaf y gaeaf yn llwyddiant mawr, ac mae'n debyg mai dyma fydd y drefn ar gyfer y dyfodol.

*Joy Davies*

## Diwedd y Daith i Gantorion Creigiau

Achlysur hyfryd ond chwerw felys oedd gwasanaeth carolau Eglwys Creigiau ar 15 Rhagfyr gan mai dyma gyngerdd olaf Cantorion Creigiau ar ôl dros hanner canrif o ganu.

Ffurfiwyd y côr ym 1970 gan Mair Roberts, a hi fu'r unig arweinydd ers y dechrau. Yr adeg honno grŵp bach o gymdogion ym mhentref Creigiau oedd y côr a ddeuai at ei gilydd i ganu carolau a chodi arian ar gyfer elusennau lleol, a thros y blynyddoedd codwyd tua £250,000.

Magwyd Mair yn Llundain ar aelwyd Gymreig a Chymraeg ei hiaith. Roedd yn unawdydd yng nghôr ei mam ac yn cystadlu yn y gwahanol eisteddfodau a oedd yn nodweddiadol o fywyd Cymry Llundain yr adeg honno ac yn perfformio o flaen cynulleidfaoedd amrywiol. Aeth ymlaen i astudio canu yn Ysgol Gerdd y Guildhall a dawnsio ac actio yn Ysgol y Llwyfan, Italia. Cafodd yrfa ddisglair ym myd y theatr, cabaret a theledu. Y diweddar Ryan Davies a'i gyfres gyntaf o deledu a ddenodd Mair i Gaerdydd yn 1966.

O dan ei harweiniad tyfodd Côr Creigiau o fod yn gôr pentref i Gantorion Creigiau a oedd yn rhif tua 70 o aelodau. Perfformiodd y Cantorion mewn cyngerddau ledled y deyrnas Unedig a thramor. Enillodd y côr sawl gwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn ogystal â serennu mewn cystadleuthau rhyngwladol. Byddent yn perfformio tua 20 gwaith y flwyddyn ac yn teithio'n helaeth. Rhaglen amrywiol oedd gan y côr bob amser yn rhychwantu'r clasurol a'r modern a byddai elfen Gymreig amlwg i'r canu.

Bu Mair hefyd yn feirniad cerddorol, yn brif gantores gyda Chôr Meibion Teorci yn ogystal â pherfformio yng Nghanada ac yn Awstralia yn yr adeilad eiconig hwnnw, Tŷ Opera Sydney. Yn ogystal, mae wedi canu yn yr Eidal, Ffrainc, Iwerddon, Hong Kong ac yn fwy diweddar, ym Malta, yn 2018.

Gan fod prinder baswyr a thenoriaid, teimlodd Mair ei bod yn well gorffen er bod hyn yn benderfyniad anodd. Diolchwn am y pleser a roddodd Cantorion Creigiau dros y degawdau a dymunwn ymddeolid hapus iawn i Mair, Elwyn ac aelodau'r côr.

*Mary Nicholas*



# Colofn Natur



## *Wythnos Blychau Nythu*

**Gethin Jenkins-Jones**

Wrth i mi sgwennu hyn (ar ddiwedd mis Chwefror), tu allan mae'r Cennin Pedr wedi cychwyn blodeuo, ac mae gwres gwan yr haul ar y boch yn f'atgoffa bod diwedd y gaeaf ar y gorwel o'r diwedd. Wedi misoedd cymharol dawel, cyn hir mi fydd côr y wawr yn cychwyn, ac mi fydd bywyd gwyllt o bob math yn paratoi am dymor bridio arall. Bydd mwyafrif o'n hadar cyfarwydd, fel y Robin Goch, yr Aderyn Du, a'r Ji-binc (ac eraill), yn nythu'n ddirgel mewn cloddiau dwys i osgoi llygaid gwyliadwrus ysglyfaethwyr. Mi fydd eraill, fel y Bioden a'r Ysguthan, yn adeiladu eu nythod yn uchel yn y coed, yn achlysurol yn weddol agored. Ac, yn lwcus i ni, mae tri aderyn sydd i'w gweld yng Nghaerdydd - y Titw Tomos Las, y Titw Mawr, a Delor Cnau, yn hapus i nythu mewn blychau nythu dynol, gan gynnig cyfle i ni i fwynhau gweld genedigaeth cenedlaethau newydd o'r adar yma i'r byd.





Yn ogystal â dathlu ein cariadon, mae canol mis Chwefror hefyd yn wythnos y byddwn yn ei dathlu'n flynyddol fel 'wythnos blychau nythu', gan mai dyma amser gorau'r flwyddyn i osod blychau nythu cyn i'r tymor nythu ddechrau. Mae blychau nythu yn eitem boblogaidd iawn yng ngerddi Prydain, ac mae nifer ohonynt efo 'nenfwd' sy'n agor i'n galluogi i fwynhau a monitro esblygiad y nyth trwy'r gwanwyn. Mae gweld cywion yn troi o fod yn greaduriaid bychan noeth i'r adar cyfarwydd rydym yn gweld o ddydd i ddydd yn rhagorol, ac mae cannoedd o bobl yn cael hwyl yng Nghymru yn eu monitro pob blwyddyn. Yn 2024, mi wnaeth 5,400 o nythod adar gael eu monitro yng Nghymru ar gyfer arolwg NRS (Nest Record Scheme) y BTO. O'r rheini, roedd 1,577 ohonynt yn nythod Titw Tomos Las, 794 yn nythod Titw Mawr, a 100 yn nythod Delor Cnau.

Mae gweld parau'r adar yma yn archwilio blychau nythu ar ddechrau'r gwanwyn yn rhywbeth sbesial i mi. Tra yn fy arddegau, mi wnes i adeiladu tua ugain ohonynt a'u rhoi i fyny mewn sawl lle ar ymyl y ddinas. Mae'n deimlad pwerus gweld bywyd gwyllt yn defnyddio rhywbeth y gwnaethoch ei adeiladu efo'ch dwylo eich hun. Am tua degawd mi wnes i fonitro cywion y blychau. Wrth gwrs, roedd ambell wanwyn yn well nag eraill, ond gan amlaf roedd dros hanner o fy mlychau efo teulu o adar erbyn mis Ebrill.

Mae'r tymor nythu, wrth gwrs, yn cychwyn efo'r rhieni yn adeiladu'r nyth. Mi fydd y ddwy rywogaeth titw yn cychwyn gan gasglu mwswgl o'r coed a'r ddaear i greu 'gwely' i'r cywion, cyn gorffen gan gasglu unrhyw blu maent yn medru ffeindio yn eu hamgylchedd cyfagos. Mae'r Delor Coed, fodd bynnag, yn eithriad, gan eu bod yn adeiladu eu nythod bron yn gyfan gwbl efo rhisgl a darnau bach o bren (nid y cychwyniad mwyaf cyfforddus yn y byd!). Wedi i'r nyth orffen (tua cychwyn mis Ebrill gan amlaf), mi fydd yr adar yn barod i gychwyn dodwy. Mae'r Delor Coed gan amlaf yn dodwy ond tua hanner dwsin o wyau, ond mae'r ddau ditw yn aml yn dodwy dros ddeg. Yna, am dair wythnos, mi fydd y fam yn treulio rhan fwyaf o'r dydd yn eistedd ar y nyth. Ar ddiwedd mis Ebrill rydw i o hyd bach yn nerfus yn agor blwch, rhag ofn i mi weld llygaid llym y fam yn syllu yn nôl arnaf. I'w hatal rhag dychryn, yn araf deg rydw i'n agor nenfwd y blwch, ac rydw i'n ei gau yn syth os yw'r fam yn bresennol. Wrth fonitro adar, nid oes unrhywbeth yn fwy pwysig na sicrhau lles yr adar.

Erbyn canol mis Mai, mi fydd rhan fwyaf o'r cywion wedi deor, ac am tua phymtheg diwrnod mi fydd y ddau riant yn brysur yn bwydo'r cywion efo lindysod a phry bach. Hwn yw adeg fwyaf cyffrous y tymor nythu, ac rydw i o hyd yn croesi fy mysedd y bydd pob cyw yn goroesi i adael y nyth. Ar ddechrau mis Mehefin mi fydd y cywion yn ddigon hen i adael ac, os ydych chi'n lwcus, gallwch weld teuluoedd yn symud efo'i gilydd trwy'r goedwig. Mi fydd rhai o'r cywion yn goroesi i'r gwanwyn nesaf, ond mi fydd y rhan fwyaf yn marw sbel hir cyn hynny. Er bod natur yn hardd, mae hi hefyd yn greulon.

Mae monitro nythod yn arferiad hwyliog i wneud bob blwyddyn, a dwi'n argymell pob un ohonoch i gael un blwch y gwanwyn yma, a joio eu monitro!

# Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2025

## Eisteddfod Caerdydd yn llwyddiant ysgubol

Diolch i bawb ddaeth i Ysgol Glantaf nos Wener 7 Chwefror i gystadlu ac i gefnogi. Cafwyd gwledd o gystadlu, o'r unawd blwyddyn 4 ac iau oedd yn agor y noson, i gystadlaethau y corau agored wnaeth gloi'r noson. Roedd y neuadd yn llawn o 4 o'r gloch, nes hanner nos, gyda chytgan yr anthem yn atseinio ar hyd y Taf.

Wythnos cyn yr eisteddfod fe wnaethom apêl i bobl ddod â chyfraniadau i ni eu casglu a'u cyfrannu i ganolfan Huggard, sy'n cefnogi'r digartref yn Nghaerdydd. Diolch enfawr i bawb ddaeth â chyfraniadau amrywiol o dywelion, hetiau, a chyfraniadau ariannol. Fe aethom ni â llond car i'r ganolfan, ac roedd y staff yn hynod ddiolchgar.

Ry'n ni fel pwyllgor yn gobeithio eich bod wedi mwynhau ein seremoni yn anrhydeddu'r tri phrif enillydd gyda'i gilydd. Llongyfarchiadau eto i Ann Davies ar ennill y Fedal Ryddiaith, Heledd Evans ar ennill Tlws yr Ifanc, a John Emyr am ennill y gadair. Braf yw gweld enwau cyfarwydd ac enwau newydd yn cystadlu ac ennill o flwyddyn i flwyddyn – daliwch ati!

Mae hi'n bleser gallu rhannu canlyniadau'r holl gystadlaethau yma. Mae beirniadaethau'r cystadlaethau gwaith cartref i gyda ar y wefan hefyd www.eisteddfodcaerdydd.cymru

| Cystadleuaeth | Enillydd |
|---|---|
| Rhyddiaith blwyddyn 2 i 4 | Robin Goch - Nansi Gwen Williams |
| Rhyddiaith blwyddyn 7 i 9 | Cŵl Dŵd - Esyllt Gruffydd |
| Y Fedal Ryddiaith | Coch y Bonddu – Ann Davies |
| Llên meicro | Glenys -  Martyn Huws |
| Adolygiad | Morgrugyn Pitw Bychan - Mathew Bill |
| Rhyddiaith y dysgwyr | Amelia - Amelia Davies Bl11 Ysgol Bae Baglan |
| Barddoniaeth blwyddyn 7 i 9 | Celyn Deryn 5074 - Gethin Frohawk |
| Barddoniaeth blwyddyn 10 i 13 | Ap Hedd - Twm Rhys |
| Y Gadair | Gogor Bach – John Emyr |
| Englyn ysgafn | Drilio'n ddwfn – Martin Huws |
| Englyn | Beaufort – Alan Iwi |
| Cerdd rydd | Morgrugyn Pitw Bychan – Mathew Bill |
| Cerdd gaeth | Y Drefn Dragywydd - Eirian Dafydd |
| Cyfansoddi geiriau emyn | Ffynnon – Eirian Dafydd |
| Tlws yr Ifanc | Caradog – Heledd Evans |
| Cyfansoddi cerddoriaeth cynradd | Topas16 - Faith Manville-Parry |
| Cyfansoddi cerddoriaeth uwchradd | Sgŵd – Saga Stand |
| Cyfansoddi cerddoriaeth agored | Pili Pala – Dan Gibson |
| Ffotograffiaeth cynradd | Moana – Greta Marged Wyn |
| Ffotograffiaeth uwchradd | Blodyn - Eos Aaron |
| Ffotograffiaeth agored | Golwg Tywi – Angharad Haf Wyn |

Gellir darllen cerdd fuddugol John Emyr (Cerdd y Gadair) a gweld y ffotograffau buddugol ar dudalennau 7 a 8.

Bydd stori fer Ann Davies (Y Fedal Ryddiaeth) yn cael ei chynnwys yn rhifyn Ebrill.

Cerdd fuddugol John Emyr

## CYSGODION

***Gwawr***

A'r nos yn hirnos o hyd,
mynnaf gofio am ennyd
oriau byw yng ngwawr y byd.

Dan gysgod braw gwrthdrawiad, yn heddiw
anniddig f'ymchwiliad,
yn awr cur, cofio'r cariad
unwaith fu yn nhŷ fy nhad.

Diddanwch tad oedd yno, a llewyrch
canllawiau heb ddwrdio;
a dedwydd fu'r astudio
yn ei drefn ddibryder o.

A chân gefais a chynnydd yn fy noe,
cân fy nhad o'm gwawrddydd,
heb rwyg nac un alaw brudd:
dylanwad ei lawenydd.

***"Gweithrediad milwrol" yn Wcráin***

Roedd anaf a chyflafan
gwŷr y gwyll yn tagu'r gân;
â llais trais, bu torri oed,
daeth ing i daith ieuengoed;
i'r llu, heb allu bellach,
gwanwyn oedd o ganu'n iach.

***Gaza***

Dryswch yng ngwlad yr Iesu, yn y llwch
wedi'r lladd a'r malu,
gwelwn danc ac olion du.

Yn daro gwyllt ar dir y gân, helynt
a welais, cyflafan;
trwy'r dydd yr oedd plant ar dân!

Troi'n hylltod holl ddyfodol yr ifanc
afrifed a'u pobol,
a'u heddiw nhw ni ddaw'n ôl.

I antur rhoed mynwentydd, i obaith
y bobol rhoed cystudd;
heibio i rwyg mae llef brudd.

Yn ôl yn ogof gofid,
y mae'r lle dan fomiau'r llid.

***Trafod***

Â'u trafod llawn traddodiad, yn ddiddig
ar ddydd amddiffyniad,
rhônt weniaith yn ddieithriad
cyn dydd holl gystudd y gad.

***Chwilio***

Chwiliais a chwiliais â chur neuaddau'r
newyddion am gysur;
wedi holi, cael dolur.

***Pietas***

Yn y cur a'r closio cas,
pa ateb heb *bietas*?
A sgrech a gweddi'r fechan
yn daer fud am fynd o'r fan
lle nad oes haul na theulu
na dim ond casineb du.
Ymestyn wyf am ystyr
byd o boen bywydau byr.

Dan lwch, mae torf ddiborfa, - wedi'r lladd,
daear llu y difa
yw "dysg" yr ifanc di-ha'.

Heibio i gam ac amau, o'r annwyl!
pa rinwedd heb faddau?
Dawn hen a roed i ninnau,
heibio'r rhwyg - dyfalbarhau.

***Meseia* George Frideric Handel**

O chwa ein dinas a'i chur,
o resi'r strydoedd prysur
ac o filoedd gofalon
y dydd a'i bryder a'i dôn,
fe ddaeth torf at gerddorfa
arbennig Nadolig da.

O gam i gam clywsant gôr
o allu o flaen allor;
ger drws y sain, arweinydd
yn allwedd cyn diwedd dydd;
Duw a roes iddynt drysor
trwy iaith testamentau'r Iôr.

Yn lle briw, haleliwia
Mab y Dyn a'i destun da:
ei hanes nid yw'n huno,
Duw y Gair nid â o go';
golau siŵr yr eglwys hon
ysgydwodd y cysgodion.

---

Ffotograffiaeth uwchradd — buddugol Eos Aaron







Uchod
Ffotograffiaeth cynradd -
Greta Marged Wyn

Ar y chwith
Ffotograffiaeth agored —
Angharad Haf Wyn


Os oes diddordeb gyda chi yn helpu cynnal a threfnu'r eisteddfod, mae wastad croeso i chi ar y pwyllgor. Ry'n ni'n cwrdd tua unwaith y mis, ac yn rhannu cyfrifoldebau amrywiol rhyngom. Anfonwch e-bost at cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru os oes amser gyda chi i'n helpu ni.

Byddwn ni'n rhannu dyddiad a lleoliad yr eisteddfod flwyddyn nesaf cyn gynted â phosibl, ond mae'r dyddiad newydd, ychydig yn hwyrach, fel petai wedi gweithio, felly mae'n debygol y bydd yr eisteddfod ar nos Wener gyntaf mis Chwefror yn 2026 hefyd. Cadwch lygad ar ein cyfryngau cymdeithasol, ac wrth gwrs yn ein hoff bapur, *y Dinesydd*!

| Cystadleuaeth | Cyntaf | Ail | Trydydd |
|---|---|---|---|
| Unawd blwyddyn 4 ac iau | Twm Ifans | Nora-Louise Rees | Ela Gwawr Gwyn Davies |
| Unawd blwyddyn 5-6 | Guto Huw Thomas | | |
| Llefaru unigol blwyddyn 4 ac iau | Owain | Eiri Fflur Hughes | Dhanraj Singh |
| Llefaru unigol blwyddyn 5-6 | Teilo Gruffydd | Llywelyn Gruffydd | |
| Unawd offerynnol oed cynradd | Faith Manville-Parry | | |
| Unawd cân werin oed cynradd | Agnes Evans | Betsi Annabelle | |
| Unawd cerdd dant oed cynradd | Guto Huw Thomas | | |
| Dawnsio gwerin unigol oed cynradd | Caio Ifan Jones | | |
| Côr neu barti oed cynradd | Ysgol Melin Gruffydd | Ysgol Pwll Coch | |
| Dawnsio gwerin i grŵp oed cynradd | Ysgol Pwll Coch | Clocswyr Canna | |
| Unawd blwyddyn 7-9 | Esyllt Gwyn Gruffydd | Mathew Parry Bill | Saga Strand |
| Unawd blwyddyn 10-13 | Alys Edwards | Beca Derrick | Olivia Carys |
| Llefaru unigol blwyddyn 10-13 | Mari Fflur Thomas | | |
| Llefaru unigol i ddysgwyr blwyddyn 7-9 | Amahrae Evans | Jen Ford | Harry a Callan |
| Llefaru unigol i ddysgwyr blwyddyn 10-13 | Phoebe | Gracie | Amelia |
| Côr neu barti oed uwchradd | Merched Plas Taf | Bechgyn Glantaf | |
| Grŵp llefaru oed uwchradd i ddysgwyr | Grŵp Caradog | Grŵp Dur a Môr a Grŵp Glyndwr | |
| Unawd cân werin oed uwchradd | Elen Morse-Gale | Gruffydd Harrisson | |
| Unawd cerdd dant oed uwchradd | Mared Edwards | Mathew Parry Bill | |
| Dawns werin/stepio unigol oed uwchradd | Osian Jones | | |
| Unawd offerynnol oed uwchradd | Ben Manville-Parry | Alistair Hamilton | Saga Strand |
| Ensemble offerynnol o dan 18 oed | Pantherod Pinc | Ensemble Iau Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf | Deuawd Glantaf |
| Unawd lleisiol agored | Caleb Nicholas | Stefan Wright | |
| Unawd cerdd dant agored | Eiriana Jones-Campbell | | |
| Unawd canu emyn/cân o fawl | Huw Roberts | Branwen Gwyn | Wyn Jones |
| Unawd o sioe gerdd wreiddiol Gymraeg | Eiriana Jones-Campbell | Gruffydd Harrisson | Esyllt Gwyn Gruffydd |
| Grŵp llefaru agored | Yr Alltudion | | |
| Parti neu gôr cerdd dant | Merched Canna | Parti'r Efail | |
| Parti neu gôr gwerin | Merched Canna | CF1 | Parti'r Efail |
| Dawns werin/stepio i grŵp agored | Dawnswyr Ysgafndroed | | |
| Sgen ti dalent? | Merched Iechyd Da | | |
| Côr agored | Taflais | Côrdydd | CF1 |

# Cymrodorion Caerdydd

E. P. Hughes oedd testun Sian Rhiannon Williams yng nghyfarfod Cymrodorion Caerdydd ar 7fed Chwefror.



*E. P. Hughes*

Nododd ei bod hi'n addas iawn i ni dynnu sylw at fywyd a gwaith yr addysgydd a'r ddiwygwraig gymdeithasol Elizabeth Phillips Hughes (Merch Myrddin) (1851-1925) eleni ym mlwyddyn canmlwyddiant ei marwolaeth. Fe gafodd y fenyw alluog, benderfynol a hynod weithgar hon ddylanwad arhosol ar y gyfundrefn addysg ar bob lefel yng Nghymru ac ar addysg uwch a hyfforddiant athrawon yn Lloegr hefyd lle roedd yn un o brif arloeswyr addysg merched mewn cyfnod pan oedd yn rhaid brwydro'n galed yn erbyn rhagfarn ac anwybodaeth.

Mae'n enw cyfarwydd yng Nghaergrawnt, lle mae Hughes Hall, sydd bellach yn rhan o Brifysgol Caergrawnt, yn ei hanrhydeddu fel pennaeth cyntaf y coleg cyntaf yn Lloegr i hyfforddi athrawon graddedig. Bellach, mae plac i'w chofffáu yng Nghaerfyrddin, ei thref enedigol, ac mae gwell ymwybyddiaeth o'r hyn a gyflawnodd yn y Barri ac yn Sir Forgannwg erbyn hyn hefyd, a da hynny.

Efallai y dylasem ei chofio'n bennaf am y modd y bu iddi godi ei llais er mwyn sicrhau bod merched yn cael cyfleoedd cyfartal ym myd addysg pan sefydlwyd yr ysgolion canolraddol (uwchradd) a cholegau'r brifysgol yma; ei chefnogaeth gref i weledigaeth sefydlu Prifysgol Cymru yn fodd creu cenedl addysgedig a hyderus, ynghyd â'i chred y dylai'r Gymraeg gael lle teilwng mewn cyfundrefn addysg gydlynol ac unigryw Gymreig.

Fe gafodd fywyd amrywiol a diddorol. Ar ôl gorfod rhoi'r gorau i'w swydd yng Nghaergrawnt yn 47 mlwydd oed, llwyddodd i ddringo'r Matterhorn (a sawl mynydd arall) a dod yn Athro Addysg mewn Prifysgol i Fenywod yn Tokyo, heb sôn am deithio i'r Unol Daleithiau ac i sawl gwlad yn Nwyrain Asia, cyn ymsefydlu yn y Barri ym 1902. Yno, cafodd ddylanwad fel aelod o Bwyllgor Addysg Sir Forgannwg ar sefydlu'r coleg hyfforddi yn y Barri a nifer o ddatblygiadau eraill.

Hi oedd sefydlydd cangen gyntaf Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn ne Cymru yno, ac fe sefydlodd hefyd glwb i fenywod ar batrwm clybiau menywod America a fu'n llwyddiannus dros ben. Yn ystod yr Rhyfel Byd Cyntaf sefydlodd gangen o'r Groes Goch ac ysbyty i filwyr gan dderbyn yr MBE – y fenyw gyntaf yng Nghymru i'w hanrhydeddu felly mae'n debyg. Dyfarnwyd gradd LLD er anrhydedd iddi gan Brifysgol Cymru ym 1920 pan baentiwyd portread ohoni gan yr artist adnabyddus Margaret Lindsay Williams sydd bellach yn y Llyfrgell Genedlaethol.

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar nos Lun Chwefror 17 ar ddechrau ein cyfarfod arferol daeth Ann Beynon atom ar ran Y Ganolfan Glyd i dderbyn siec o £600 yn dilyn ein noson ym mis Rhagfyr, sef ein Plygain.

Wrth ddiolch am y rhodd dywedodd Ann Beynon cymaint roedd y Ganolfan yn gwerthfawrogi y rhodd hon ac am roddion tebyg ar draws y ddinas. Dywedodd hefyd fod cymaint yn ddigartref neu'n anghenus ac felly'n dibynnu ar waith yr elusen.

Yna croesawodd ein Cadeirydd Iona Edwards yr aelodau i'r cyfarfod ac yn arbennig ein siaradwr am y noson, sef Sian Meinir o Benarth. Yn ei chyflwyniad aeth Sian Meinir yn ôl â ni, drwy gyfrwng sgwrs a chân i Ddolgellau, i ddyddiau ei phlentyndod, yna ymlaen i Brifysgol Bangor ac yna ymlaen i Lundain cyn ymuno yn gynnar iawn â chwmni opera Covent Garden. Bellach, wedi cyfle i deithio a pherfformio, mae hi yn ôl yng Nghymru ac yn aelod o Gwmni Opera Cymu. Un o'r uchafbwyntiau cerddorol oedd y cyfle i fynd o amgylch Cymru yn dehongli emynau Ann Griffiths Dolwar Fach, ac roedd yn amlwg fod y profiad cerddorol a theatrig hwnnw bellach yn elfen fawr yn ei bywyd.

Diolchwyd i Sian Meinir am ei pherfformiad a'i geiriau gan gyflawni nod ei sgwrs sef "Pererindod y Gân" mor hwyliog, ac roedd ymateb brwdfrydig y gynulleidfa yn cadarnhau y mwyniant.



*Iona Edwards, Owen Saer a Sian Meinir*

# Cymun yn y Gymraeg yn Eglwys Hynafol Sant Edeyrn



Rydym oll, yn ôl pob tebyg, yn gyfarwydd â phentref Llanedeyrn, yn Nwyrain Caerdydd. Mae eglwys Sant Edeyrn, y gellir ei holrhain yn ôl i'r chweched ganrif, ymhellach i'r Dwyrain ym Mhentwyn/Pontprennau. Gellir gweld tŵr gwyn yr eglwys wrth deithio ar yr A48 o Gasnewydd i gyfeiriad Caerdydd. Mae'r eglwys drws nesaf i dafarn Yr Unicorn.

**Gwasanaeth Cymun yn Y Gymraeg.**
Nos Fawrth, Chwefror 11, eleni cynhaliwyd gwasanaeth cymun yn y Gymraeg yn Eglwys hynafol Sant Edeyrn. Mae'n fwriad ac yn obaith gan Cherry, Esgob Mynwy i gynnal gwasanaethau ar gyfer y Cymry Cymraeg eu hiaith gyda chroeso arbennig i siaradwyr newydd. Mae Esgob Cherry fel Mary, Esgob Llandaf, y ddwy yn ddysgwyr wedi eu geni a'u magu yn Lloegr.

Ges i wahoddiad caredig iawn a'r fraint arbennig i draddodi'r bregeth yn y Gymraeg yn y gwasanaeth cyntaf mewn cyfres. Doedd neb o'r ficeriaid oedd yn bresennol yn gwybod pryd y defnyddiwyd y Gymraeg mewn gwasanaeth yn yr eglwys cyn hyn. Yn ddi-os, y Gymraeg fyddai iaith Edeyrn a'i gymuned dros 1,500 o flynyddoedd yn ôl.

**Sant Edeyrn.**
Ganwyd Edeyrn yn y cyffiniau hyn yn 464 O.C., yn un o dri mab Gwertheyrn. Yn ôl yr hen hanesydd Nennius, fe gafodd Edeyrn ei fedyddio gan Sant Germanus ac yna cafodd Edeyrn ei fabwysiadu ganddo a chael ei hyfforddi ganddo i'w gymhwyso i ddod yn offeiriad. Credir mai ym mynwent yr eglwys y claddwyd Sant Edeyrn yn 522 O.C. yn 58 mlwydd oed, er na wyddom union leoliad ei fedd erbyn hyn. Fe adeiladodd Edeyrn gymuned Gristnogol ar ochrau afon Rhymni. Mae'n debyg bod tua 300 o breswylwyr yno a sefydlwyd y brif ganolfan ar y tir ble mae eglwys Sant Edeyrn heddiw.

Fel arferiad Dewi Sant a'i gyfoeswyr fe deithiodd Edeyrn i'r Alban, yr Iwerddon a Llydaw. Cysegrwyd eglwys Sant Edeyrn iddo cyn ei farw, er anrhydedd ac edmygedd o'i lafur a'i ymroddiad. Roedd gwneud hyn cyn marw'r sant yn beth anghyffredin iawn yn yr oes honno.

Yn nyddiau Cadwaladr Fendigaid, un o'n tywysogion Cymreig olaf, trechwyd a dinistriwyd y gymuned Gristnogol gan y Sacsoniaid. Y Normaniaid fu'n gyfrifol am adeiladu eglwys Sant Edeyrn fel mae heddiw.

Yn ôl dogfennaeth cyfnod 1153/1183 O.C. trosglwyddwyd capel Sant Edeyrn a chapel Llanbordan (yn Coed-y-Gores) a'i holl eiddo i ddwylo Abaty Tewkesbury. Ond yn 1236 dychwelwyd Eglwys Sant Edeyrn a'i roi yn nwylo'r Arglwydd Elias, Esgob Llandaf. O ganlyniad i hyn daeth Llanedeyrn yn blwyf cydnabyddedig. Er hynny, mae'r eglwys yn esgobaeth Mynwy fel mae Eglwys yr holl Saint yng Nghyncoed.

Mae'r gynulleidfa ffyddlon sy'n addoli yn yr eglwys am 9.30 ar foreau Sul yn hynod groesawgar ac mae gwahoddiad i unrhyw un sydd wedi ei fedyddio mewn eglwys neu gapel arall i dderbyn elfennau'r cymundeb. Cynhelir y gwasanaeth nesaf yn y Gymraeg nos Iau, Gorffennaf 3ydd. Gobeithio byddwch yn ystyried mynychu a chefnogi'r ymgais arbennig yma gan Esgobaeth Mynwy i adfer y defnydd o'r Gymraeg fel yn nyddiau Sant Edeyrn dros 1,500 o flynyddoedd yn ôl.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â fi, Gwilym Wyn, trwy gyfrwng serenagwill@btinternet.com

*Gwilym Wyn Roberts*




# Siaradwyr Cymraeg Newydd



## Gwilym Dafydd

CHWARTER EILIAD  Jo Heyde

Mae Chwarter Eiliad yn gasgliad o gerddi, caeth a rhydd - cerddi sydd yn crynhoi f'atgofion o oedran ifanc, cerddi am bethau rwyf wedi'u gweld a'u synhwyro yn Ninbych-y-pysgod a'r Chess Valley, a hefyd, rhai sydd yn ymateb i ddarnau o gerddoriaeth. Felly mae 'na amrywiaeth o bynciau a mesurau, a rhywbeth at ddant pawb, rwyf yn gobeithio!




Maent i gyd yn gerddi pwysig imi, gan eu bod yn cwmpasu fy mywyd o adeg gynnar iawn hyd heddiw, - a minnau, erbyn hyn, wedi magu haen o hunaniaeth newydd trwy gaffael y Gymraeg.

Meddai Mererid Hopwood am y casgliad, "mae cyffro'r bardd o fod wedi darganfod y Gymraeg – ei geiriau, ei chynghanedd, ei phosibiliadau – yn pelydru drwy gloriau'r gyfrol hon. Fel 'eiliad' Waldo Williams, a 'goleddf golau' Emily Dickinson, mae cerddi Jo Heyde yn rhoi llais i brofiadau byrhoedlog a'u dal yn y dweud arhosol".

Dechreuodd fy nhaith i ddysgu'r iaith tua diwedd 2018, a heb os, o'r cychwyn cyntaf, roeddwn yn gwybod fy mod wedi cwympo mewn cariad â'r Gymraeg!  Daeth trobwynt arall, ar ddiwedd 2020/ dechrau 2021, pan ddechreuais ddarllen barddoniaeth am y tro cyntaf. A dyma fynd ati i ddysgu'r Gynghanedd diolch i lyfr arbennig Alan Llwyd, cyn ymuno, wedyn, ag Ysgol Farddol Caerfyrddin. A dyma'r camau a newidiodd bopeth imi - o hynny ymlaen, nid oedd troi'n ôl rhag y llwybr creadigol hwn!

Rwyf yn ddiolchgar ofnadwy am yr holl brofiadau rwyf wedi'u cael ar hyd y ffordd. A hefyd am y cyfle i gwrdd â chymaint o bobl eraill sydd yr un mor angerddol dros yr iaith â minnau. Yn ystod y cyfnod clo, hyfryd oedd cael ymuno â'r Clonc rhithiol yng Nghaerdydd gyda Sheridan Morgan a Gwilym Dafydd ymhlith eraill. Peth arall sydd wedi cyfoethogi fy mywyd yw darllen cymaint o gyfrolau gan feirdd anhygoel.

Dioch byth am y siopau llyfrau lleol fel Cant a Mil, sydd yn darparu detholiad o lyfrau newydd ac ail-law, ac sydd wastad yn cynnig gwasanaeth heb ei ail!

Diolch yn fawr Jo. Gwnes ei gwahodd i anfon gair yma a diolch am wneud.

Os oes diddordeb gyda chi ac os byddwch ar gael, bydd Jo yn lansio'r gyfrol yn Bank Vault, Aberystwyth, nos Fawrth, 15 Ebrill, 7.00 pryd bydd Elinor Wyn Reynolds, Caerfyrddin, yn holi Jo am ei chyfrol gyntaf o farddoniaeth.

Rydw i'n adnabod Jo bellach ers rhai blynyddoedd. Dwi wedi ei chyfarfod unwaith neu ddwy mewn Eisteddfod ac wrth recordio Talwrn y Beirdd i Radio Cymru.

Cofiaf fel nododd Jo uchod, y sesiynau Zoom nôl yn 2020 pob dydd Llun, Mercher a Gwener rhwng 1 a 2 o'r gloch, pan roedd cyfle gwych i siaradwyr Cymraeg newydd i ymarfer yr iaith. A Jo unwaith yn gofyn i fi esbonio'r gwahaniaeth rhwng eglwys a chapel – cwestiwn da iawn Jo!

**Caeau Gwynedd ger Llanfyllin**

O fis Chwefror ymlaen mae pobl yn dechrau holi – ydych chi wedi bwcio unrhyw wyliau am eleni? Wel ydw, fel mae'n digwydd. A beth amdanoch chi tybed?

Mae'n gyfleus fel gall Eirian a fi aros gyda fy nwy gyfnither hael eu lletygarwch yn yr Amwythig pan fydd yr Eisteddfod Genedlaethol gerllaw Wrecsam, Awst 2025. Dyna wnaethon ni hefyd yn 2011 – tro diwethaf cynhaliwyd y Genedlaethol yn Wrecsam.

A chanol mis Mai awn nôl i Gaeau Gwynedd fel gwnaethon llynedd a 2023. Ffermdy hunan-arlwyo yw Caeau Gwynedd rhyw filltir i'r gogledd o Lanfyllin ac wedi bod yn nwylo teulu Arthur Evans, ein prif ddosbarthwr, ers degawdau. Mae'r cyfleusterau yno yn wych ac mae'n fargen am £30 y pen, y person y noson.

Medrwch deithio i'r Bala mewn awr, Llyn Efyrnwy ond wyth milltir i ffwrdd, draw i'r Amwythig mewn tri chwarter awr a dyw Croesoswallt ddim yn rhy bell i ffwrdd.

Os am wyliau tra gwahanol i fyw yng nghanol prysurdeb ein prifddinas, yna trowch i wefan Caeau Gwynedd. Yno gwelwch luniau hyfryd ac mae englyn Eirian yno yn dweud y cyfan:

Ym mro'r ŵyn, a miri'r wennol y mae
  un man cyfareddol,
a'i hedd yn wlith bendithiol
i'r rhai ddaw i grwydro'r ddôl.

Ceir llyfr sylwadau ymwelwyr yno ac mae rhai ohonoch sy'n darllen hwn wedi bod yno. Felly fe wyddoch o brofiad  fy mod ac Eirian yn dweud calon y gwir yma!

# Y DIGWYDDIADUR

## Mawrth

**Llun, 10 Mawrth**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Yng Ngwesty'r 'New House', Heol y Ddraenen, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA. Ymgynnull am 7.00 ar gyfer 7.30pm. Pris: £30 yr un. Siaradwraig wadd: y cyfarwyddwr cerdd, Gwawr Owen. Croeso cynnes i bawb, yn arbennig i gyfeillion newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r cyd-Ysgrifennydd, Paul Morgan (07761-696286; cylch.cinio@gmail.com).

**Mawrth, 11 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Kate Griffiths ar y testun 'Ioga Cadair', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, CF23 6SE (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Iau, 13 Mawrth**
Eisteddfod Ddawns yr Urdd, Caerdydd a'r Fro, yn Ysgol Uwchradd Fitzalan (CF11 8XB).

**Gwener, 14 Mawrth**
Clwb Canna yn cyflwyno 'Naws Cân i Gymru' gyda Lo-Fi Jones a Sara Davies, yn y Clwb Rhyddfrydol, Treganna (CF5 1JD), am 8.00pm.Tocynnau: £15.00 (o siop Caban neu drwy TicketSource: https://www.ticketsource.co.uk/booking/select/vxeqboqlqqmn).

**Gwener, 14 Mawrth**
'Chwarae'r Chwedlau.' Noson cabaret yn y Gymraeg yn y 'Queer Emporium' (CF10 1AE). Manylion pellach:https://queeremporium.co.uk/products/chwaraer-chweldau-cabaret

**Llun, 17 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. 'Paned a Sgwrs' yn Y Deri, Rhiwbina (CF14 6UH), am 11.15am. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653). Croeso cynnes i bawb.

**Iau, 20 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd. Cinio Gŵyl Ddewi yn Yr Hen Bost, Sain Ffagan. Gwraig wadd: Sian Meinir. Manylion pellach: cymrodorioncaerdydd@gmail.com

**Iau, 20 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen y Felin. Noson o gerddoriaeth yng nghwmni Grŵp Ann a June, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Heol Kelston, Yr Eglwys Newydd, CF14 2AA, am 7.30pm. Manylion pellach: mywyfelin@gmail.com. Croeso i aelodau hen a newydd.

**Iau, 20 Mawrth**
Cylch Cadwgan. Bydd y dramodydd a'r nofelydd, Dafydd James, yn trafod ei waith yng Nghlwb Rygbi Pentyrch am 8.00pm. Fe'i trefnir gan Gangen y Garth, Merched y Wawr. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Ysgrifennydd Cylch Cadwgan, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Gwener, 21 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Arwel Vittle ar y testun ' "Y Whariorydd" – golwg ar arloeswyr benywaidd y Blaid Genedlaethol'. Yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, am 7.15pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, yr Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk). Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 22 Mawrth**
Eisteddfod Cynradd yr Urdd, Cylch Dwyrain Caerdydd, yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern (CF23 9DT). Eisteddfod Cynradd yr Urdd, Cylch y Fro, yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, Y Barri (CF62 8YU).

**Llun, 24 Mawrth**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Sgwrs gan O. Rhodri Jones (CERN) ar y testun 'Darganfod y Boson Higgs a dyfodol y Gwrthdarwr Hadronau Mawr', am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am fanylion pellach ac i dderbyn y ddolen Zoom, CymdeithasWyddonol@gmail.com

**Llun, 24 Mawrth**
Menter Caerdydd. 'Sgwrs y Mis' gan Dr Hywel M. Davies, Aberystwyth, ar y testun 'Cofio Jemima: Y Ffrancwyr yn Sir Benfro yn 1797 – golwg newydd ar hen hanes'. Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Awgrymir cyfraniad o £5 y sgwrs neu £20 am y flwyddyn. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Iau, 27 Mawrth**
Menter Caerdydd yn cyflwyno 'Laffwyl!' yn nhafarn Parc Fictoria (CF5 1JL) am 7.30pm. Tocynnau (£10): www.mentercaerdydd.cymru (neu £12 wrth y drws).

**Gwener, 28 Mawrth**
Eisteddfod Uwchradd yr Urdd, Rhanbarth Caerdydd a'r Fro (lleoliad i'w gadarnhau).

## Ebrill

**Mawrth, 1 Ebrill**
Noson 'Theatr' yr Urdd, Rhanbarth Caerdydd a'r Fro, yn Undeb y Myfyrwyr, Prifysgol Caerdydd.

**Gwener, 4 Ebrill**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Dr Gethin Matthews ar y testun 'Cofio Gwyn Alf Williams'. Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Y tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £15; y pris mynediad i gyfarfod unigol yw £5 (ond yn rhad ac am ddim i aelodau). I dderbyn gwybodaeth ynghylch sut i dalu, a thrwy hynny dderbyn y ddolen Zoom, anfonwch at cymrodorioncaerdydd@gmail.com. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 5 Ebrill**
Taith gwylio adar fisol dan arweiniad Eirian a Gwilym Dafydd, yn dechrau am 10.00yb. Am ddim. Am ragor o wybodaeth, anfonwch at eirianagwilym@gmail.com

**Sadwrn, 5 Ebrill**
Eisteddfod Cynradd yr Urdd, Rhanbarth Caerdydd a'r Fro, yn Undeb y Myfyrwyr, Prifysgol Caerdydd.

**Llun, 7 Ebrill**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Yng Ngwesty'r 'New House', Heol y Ddraenen, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA. Ymgynnull am 7.00 ar gyfer 7.30pm. Pris: £30 yr un. Siaradwr gwadd: y newyddiadurwr, Eifion Glyn. Croeso cynnes i bawb, yn arbennig i gyfeillion newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r cyd-Ysgrifennydd, Paul Morgan (07761-696286; cylch.cinio@gmail.com).


**Mawrth, 8 Ebrill**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Noson Gymdeithasol. Cacennau a chlonc, ynghyd â'r Cyfarfod Cyffredinol, yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, CF23 6SE (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Anfonwch fanylion ar gyfer Y Digwyddiadur at Yr Athro E. Wyn James Manylion tud.2**

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

**Yr Athro E. Wyn James**




**Canu'r Ychen**

Yn ein herthygl ddiwethaf, buom yn trafod Dai'r Cantwr a'r faled hiraethlon a luniodd yng ngharchar Caerfyrddin tua dechrau 1844, pan oedd yn wynebu ar alltudiaeth yn Nhasmania oherwydd ei ran yn Nherfysgoedd Beca. Magwyd Dai ar fferm ym mhlwyf Llancarfan ym Mro Morgannwg. Gallai aredig, ac fel y nodwyd y tro diwethaf, byddai ei lais canu da wedi bod yn gaffaeliad mawr iddo yn y cyd-destun hwnnw.

Yr hen arfer yn gyffredinol wrth aredig oedd defnyddio ychen. Ond yn araf bach, o ddiwedd yr Oesoedd Canol, ac yn enwedig o'r 18fed ganrif ymlaen, disodlwyd yr ychen gan geffylau, a'u disodli'n llwyr ym mhobman bron yng Nghymru erbyn tua chanol y 19eg ganrif.

Cadarnle olaf yr aredig ag ychen oedd Morgannwg, ac yn enwedig Bro Morgannwg, lle y cafwyd aredig ag ychen mewn rhai mannau hyd at tua diwedd y 19eg ganrif. Ers talwm, er enghraifft, adeiladau fferm y Pentre oedd ar y safle lle y mae 'Domino's Pizza' erbyn hyn yng nghanol yr Eglwys Newydd, a dywedir fod dau ych du i'w gweld yn aredig caeau'r fferm honno mor ddiweddar â'r 1870au.

Mae canu i ychen yn arfer hynafol iawn. Er enghraifft, mae Gerallt Gymro yn y 12fed ganrif yn sôn fel y byddai'r aradwr (sef yr un a dorrai'r gŵys) ynghyd â'r un a anogai'r ychen yn eu blaen, yn canu wrth aredig, 'fel petai i leddfu'r gwaith'. Yr enw a roddid ar yr un a yrrai'r ychen yn eu blaen oedd y 'cathreinwr' (neu'r 'cathreiwr', neu'r 'cethreor') am ei fod yn annog yr ychen trwy eu 'cathrain' (neu eu 'cethru' – hynny yw, eu procio) â gwialen hir â phigyn ar ei blaen (yr 'irai', neu'r 'swmbwl', neu'r 'gethren'), yn ogystal â thrwy alw arnynt a chanu iddynt; ac enw arall ar y cathreinwr oedd y 'geilwad'.




Ieuid yr ychen yn ddeuoedd. Pedwar neu chwech o ychen fyddai mewn gwedd gan amlaf, ond weithiau dim ond dau a thro arall gynifer ag wyth, yn dibynnu ar gryfder yr ychen, natur y tir ac yn y blaen. Cerddai'r cathreinwyr Seisnig y tu ôl i'r ychen, ond dilynai'r Cymry yr hen arfer Celtaidd o gerdded wysg eu cefn o'u blaen. Roedd hynny'n bosibl am fod ychen yn symud yn araf; ond âi ceffylau yn rhy gyflym i ganiatáu hynny, ac felly bu raid i'r cathreinwyr gerdded wrth eu hochr hwy.

Er y ceir tystiolaeth fod yr aradwr a'r cathreinwr ill dau yn canu wrth eu gwaith, â'r cathreinwr yn arbennig y cysylltwn yr arfer o ganu i'r ychen, i'w hannog yn eu blaen a chodi eu calonnau ynghanol eu llafur. Er enghraifft, dywed un a fu'n cathrain yn sir Gaerfyrddin yn yr 1840au, 'I had to sing for them all day long, and was so hoarse when night came that I could hardly speak. [...] They would not work if you did not sing for them.' Ac meddai Iolo Morganwg mewn llythyr at y geiriadurwr William Owen Pughe, dyddiedig 19 Rhagfyr 1802:

> The Gloucestershire farmers and dairymen, who are fond of the Glamorgan cattle, often curse the ploughboys and milkmaids of Glamorgan, for oxen will, frequently, neither work, nor cows stand to be milked, without their accustomed music, and there is but little music in the Gloucestershire farmers.

Rhoddid telerau gwell wrth gyflogi cathreinwyr os oedd ganddynt leisiau soniarus a stôr o ganeuon addas, a golygfa gyffredin mewn mannau fel y Filltir Aur ger Pen-y-bont ar Ogwr, oedd gweld pobl yn aros yn ymyl y ffordd i wrando ar yr 'arogldarth gerddorol' a godai o'r caeau wrth i'r cathreinwyr ganu i'r ychen. Ceid tipyn o gystadlu rhwng y cantorion pan fyddent yn aredig ar yr un maes, a thipyn o gyfnewid penillion hefyd wrth y tân fin nos.

Yr hyn a nodweddai'r caneuon hyn yw eu hamrywiaeth o ran pwnc a mesur. Dan ddylanwad diwygiadau ysbrydol, gwelid rhai yn canu salmau ac emynau. Dywed Williams Pantycelyn wrth ddisgrifio cyfnod o adfywiad crefyddol tua chanol y 18fed ganrif, fod 'yr aradwr a'r geilwad yn fynych yn ymbyncio mewn salmau ac odlau ysbrydol ar hyd y meysydd'; ac mewn llythyr at gyfaill yn Lloegr, dywed Thomas Charles am ei brofiad wrth deithio o'r Bala i Aberystwyth ar adeg o ddiwygiad yn 1805: 'In travelling the roads, it was pleasing to hear the ploughman and the driver of the team singing hymns whilst at their work. Nothing else was heard in all those parts.'

Ond yn gyffredinol, amrywiol iawn oedd y caneuon a glywid ar y meysydd, a chyfran uchel ohonynt yn rhai ysgafn a doniol, a barnu wrth y rhai sydd wedi eu cadw yn y traddodiad llafar. Ond er bod amrywiaeth yn y mesurau, y triban oedd y mesur mwyaf poblogaidd o lawer ym Morgannwg wrth ganu i'r

ychen, gydag anogaethau megis ‘hw-mlân’, neu ‘dere-dere’, neu ‘ma-hw’ wedi eu hychwanegu ar ddiwedd y pennill.

Weithiau, cenid cyfres o dribannau ar yr un thema, wrth i’r cathreinwr fynegi ei deimladau wrth yr ychen neu rannu’r hyn a bwysai ar ei feddwl. Er enghraifft, yn ôl un a fu’n gyrru ychen ym Mro Morgannwg tua 1830, pe digwyddai i un o’r cathreinwyr gael ei wrthod gan ei gariad nos Sul, byddai yntau ddydd Llun ‘yn tywallt ei ddigofaint arni yn ei benillion wrth yr ychain’. Ond yn aml, tribannau amrywiol iawn eu pynciau a genid yn un rhes.

Cawn dystiolaeth o hynny mewn recordiad yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan a wnaed mor ddiweddar ag 1953. Tribannau pur amrywiol eu pwnc a genir ar y tâp. Y canwr oedd Robert Thomas o gyffiniau Gwenfô, a aned yn 1865 ac a ddysgodd ganu’r tribannau hynny yn 13 oed (ac felly tua 1878) pan oedd yn cathrain ychen ar fferm y Doghill yn Nyffryn Golych, i’r de o bentref Sain Nicolas. (Mae fferm y Doghill yn agos iawn i Erddi Dyffryn.)

Dyma ddau o’r tribannau hynny fel y’u trawsysgrifiwyd gan D. Roy Saer yn ei gasgliad *Caneuon Llafar Gwlad*, cyfrol 1 (1974), sy’n dangos ynganiad tafodieithol Robert Thomas wrth eu canu. Mae’r ddau bennill yn agor yn debyg, yn dilyn fformiwla a welir yn aml yn y tribannau:

Tri pheth sy dda gin grotyn
Yw gwraig y tŷ yn werthin
A’r crochon bach yn berwi’n ffrwd
A llond y cwd o bwdin. *Ma-hw!*

Tri pheth anawdd eu ’napod:
Dyn, derwan a diwarnod;
Y pren yn gou a’r dydd yn troi
A dyn yn ddouwynepog. *Ma-hw!*

Gyda llaw, mae gan ardal Sain Nicolas le amlwg yn y bennod olaf yn hanes aredig ag ychen ym Mro Morgannwg, oherwydd yn 1938 darllenwyd rhaglen ar aredig ag ychen ar y BBC a gynhwysai sgwrs gan Richard Thomas o fferm yr Homri, ychydig i’r gogledd o bentref Sain Nicolas. Roedd Richard Thomas erbyn hynny’n 83 oed, ac yn ei sgwrs mae’n sôn am ei brofiad o weithio ag ychen drigain mlynedd ynghynt. Ac yn y rhaglen, y mae hefyd yn canu un o’r tribannau yr arferai eu canu i’r ychen.

(*I’w barhau*)



# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## BETHEL, RHIWBEINA



Ar ddau ddydd Sul cyntaf Chwefror cawsom gyfle i groesawu'r Parchg Denzil John a Gwyndaf Roberts. Ar y Suliau canlynol bu'r gwasanaethau yng ngofal rhai o'r aelodau. Diolch yn fawr i Mair Davies a Rosina Davies am baratoi gwasanaeth diddorol yn olrhain hanes tri o emynwyr enwog Cymru. Yn ystod y gwasanaeth cawsom fwynhau unawd gan Mimi Francis. Yn dilyn y gwasanaeth bu cyfle i fwynhau paned a chacen wrth i ni ddymuno 'Pen-blwydd Hapus' i Gwilym Roberts. Mae Gwilym wedi cyrraedd 90 oed ac yn canu'r organ bob bore Sul ym Methel bron yn ddi-dor ers blynyddoedd lawer. Rydym yn gwerthfawrogi ei ffyddlondeb yn fawr. Cafodd dipyn o sioc wrth yfed ei baned pan welodd ar y sgrin deledu lu o wynebau cyfarwydd o Batagonia. Roedd yna unigolion, grwpiau a theuluoedd, i gyd yn eu tro yn gweiddi neu yn canu 'Pen-blwydd Llawen Gwilym'. Diolch i Llinos Howells am gasglu'r cyfarchion ac i Wyn a Julie Jones am y gwaith technegol. Diolch hefyd i Julie am y gacen flasus.

Ar Sul olaf mis Chwefror roedd y gwasanaeth yng ngofal tri o'n ffyddloniaid - Howel James a Nerys a Tom Smith. Mae Nerys a Tom wedi cyflwyno rhodd hyfryd i'r capel - llun o Fethel wedi ei beintio gan Jane Smith, merch Tom.

Braf oedd gweld nifer o blant yn yr ysgol Sul ar Chwefror 16. Cynhelir yr ysgol Sul nesaf ar Fawrth 16. Diolch yn fawr Lois.

Ym mis Mawrth edrychwn ymlaen at groesawu ein gweinidog nôl i'n plith unwaith eto. Dymunwn iechyd da iddo.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon / Ysgol Sul [YS] (am 10:30 a.m.):**
**Mawrth 2025**

1 – Oedfa ar Ddydd Gŵyl Dewi (10:00 a.m.)
2 – Oedfa Dewi Sant yr Ysgol Sul
9 – Oedfa Gymun:Dr Eirian Dafydd
16 – Sul y Cyfundeb (11:00 a.m.) yn y Tabernacl, Efail Isaf.
23 – Aelodau Gorllewin Caerdydd
30 – Parch Robin Wyn Samuel

Mae penodau 5 ac 11 o Lyfr Genesis yn olrhain achau y cymeriadau Beiblaidd cynharaf i droedio'r ddaear yma.

O Adda i Terah, cawn fanylion eu hoedran a phryd y ganwyd eu meibion.

Adda – 930 0ed (130 oed pan aned ei fab)

Noa - 950 oed (600 oed pan aned ei fab)

A'r hynaf ohonynt i gyd, Methuselah – 969 oed, a ganed mab iddo pan oedd yn 187 oed!

Yna, yn ôl Genesis 6:3 "*Yna dyma'r Arglwydd yn dweud, "Alla i ddim gadael i bobl fyw am byth. Mae nhw'n greaduriaid sy'n mynd i farw, ac o hyn ymlaen fyddan nhw ddim yn byw fwy na 120 mlynedd*," [Beibl.net]

Ym mhennod 25 o Genesis datgelir i Abraham fyw nes oedd yn 175 oed, ac 'roedd yn 100 oed pan aned ei fab.

Tydi'r Beibl ddim yn cofnodi oedran merched y cyfnod, er i Sara, gwraig Abraham, fyw nes cyrraedd ei 127 oed. Credir bod Mair Magdalen yn 100 oed yn marw, a thua 50 oed oedd Mair, mam yr Iesu.

Pam y diddordeb yma tybed?

Dim mwy na darllen adroddiad oddi wrth y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dilyn Cyfrifiad 2021 yn cyfeirio at hirhoedledd bechgyn (86.3 oed) a merched (89.5 oed) Cymru a aned yn 2023.

Mae gwahoddiad i gael sbec ar eu gwefan am eich tynged eich hunan ar yr hen ddaear yma.

Fe fentrais! A'r canlyniad?

Ymddiheuriadau, ond bydd yn rhaid i chi ddioddef y golofn yn y *Dinesydd* hyd o leiaf 2038 (hyd at 2051 os cyrrhaeddaf fy 100 oed)!

## TABERNACL, YR AIS

Llongyfarchiadau gwresog i Robin Gwyndaf ar gael ei urddo â gradd D.Litt. gan Brifysgol Bangor. Mae hyn yn anrhydedd aruthrol a phrin, ac yn gwbl haeddiannol o ystyried cyfraniad toreithiog Robin i lenyddiaith werin ac i heddychiaeth, yn awdur ac yn ddarlithydd rhyngwladol. Bu yn Gymrawd Ymchwil er Anrhydedd yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, 2007–22, yn meddu ar nifer sylweddol o anrhydeddau Cymreig a rhyngwladol, a bu'n ddiacon am flynyddoedd yn y Tabernacl.

Gan barhau ym myd llyfrau trown at Glwb Darllen y Tabernacl, cymdeithas sydd yn cyfarfod tua unwaith y mis, gan drafod ystod eang o gyhoeddiadau. Er enghraifft, diwedd Tachwedd cyfarfu'r Clwb yng ngwesty Porro yn Llandaf i drafod *Y Morfarch Arian* gan Eurgain Haf, enillydd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. Dwy gyfrol arall a ddarllenwyd yn ddiweddar oedd *Y Ferch Ar Y Cei* gan Catrin Gerallt, a *Damascus Station* gan David McCloskey.

O dalentau ymenyddol i ddoniau ymarferol: fore Sul cyntaf Rhagfyr, trefnwyd stondin Nadoligaidd gyda choffi a theisennau briwdda yn y festri. Bu'r chwiorydd yn brysur yn creu tegannau a matiau lliwgar, gan sicrhau bwrlwm a hapusrwydd. Codwyd dros £600 tuag at y Ganofan Glyd.

Cynhaliwyd oedfa Weddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd fis Tachwedd. Trefnwyd yr oedfa gan Ruth Davies, ac anfonwyd £100 i gefnogi prosiectau sy'n gwneud gwahaniaeth aruthrol i ferched a phlant sydd mewn angen ledled y byd. Mae gan y mudiad bum amcan i hyrwyddo cenhadaeth fyd-eang Duw: cryfhau addoliad, cymdeithas ac undod; arwain cenhadaeth ac efengylu; ymateb drwy roi cymorth, nawdd a datblygu cymunedau; amddiffyn rhyddid crefyddol, hawliau dynol a chyfiawnder; a hyrwyddo myfyrdod diwynyddol ac arweinyddiaeth drawsnewidiol.

Llongyfarchiadau i'r aelodau canynol ar ddathlu pen-blwydd arbennig: Arfon Williams a Virginia Thomas (95), Graham Thomas (90), a Gill Thomas (80).

## EGLWYS Y CRWYS

**Cyfarchion**

Trist yw nodi y bu farw un o'n haelodau, sef Mrs. Beti Cooksley, Yr Eglwys Newydd. Coffa da amdani. Bu'n ffyddlon iawn yn yr oedfa foreol am flynyddoedd a chwith yw meddwl bod y tri a fyddai'n cyd-deithio o'r Eglwys Newydd bob bore Sul, sef Beti, Sali Davies a Doug Griffiths bellach wedi ein gadael. Mae'n cydymdeimlad yn fawr gyda'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Mae Anne Innes wedi symud o'r Cartref yn Heol Don i Cartref Tŷ Llandaf ac yn setlo'n dda. Pob dymuniad da iddi hi a'r teulu.

Llongyfarchiadau i Bryan Jones, Radyr, ar ddod yn Hen Daid. Bydd Mia fach wrth ei bodd yn cael ei sbwylio ganddo.

**Y Gymdeithas**

Cafwyd noson hwyliog dros ben gyda Noson Crempog Cynnar a Cwis. Diolch i Thomas Williams am goginio'r crempogau, i William Tiplady am drefnu'r Cwis ac i Cerian Angharad am gydlynu popeth.

**Pwyllgor yr Adeilad**

Mae aelodau wedi bod yn brysur dros ben yn clirio'r adeilad a gwaredu rhai pethau sydd wedi pentyrru dros y blynyddoedd. Yr un yw hanes y Gymdeithas Ddrama sydd wedi cael gwared a bageidiau o ddillad ac adnoddau. Gwaith ddim yn rhy bleserus ond yn werth ei wneud.

**Cyngherddau**

Rydym yn hynod ffodus yn Y Crwys o gael cwmni dau o gorau amlycaf Cymru i ymarfer. Fe gynhelir dau gyngerdd ganddynt yn ystod mis Mawrth ac mae croeso cynnes i bawb i wledd o ganu. Ar y nos Wener, Mawrth 21ain bydd cyngerdd gan Gôr Aelwyd Y Waun Ddyfal am 7.00 o'r gloch a'r nos Lun ddilynol, Mawrth 24ain, am 7.30, bydd cyngerdd gan Gôr CF1. Mynediad fydd: Oedolion: £10 (£15 I'r ddau gyngerdd); Plant/Myfyrwyr/ Pensiynwyr: £5. Dewch yn llu gyda chroeso cynnes.

**Trefn Oedfaon Ebrill, yr oedfaon am 10.30 a.m. a 6.00 p.m.**

Ebrill 6ed: Parchg Glyn Tudwal Jones, Oedfa Gymun yn yr hwyr

Ebrill 13eg: Bore: Mr Thomas Williams; Hwyr: Mrs Margaret Jones

Ebrill 18fed: Gwasanaeth Cymun Gwener y Groglith am 10.00 y.b.

Ebrill 20fed: Sul y Pasg: Bore: Gwasanaeth y Pasg dan ofal Y Gymdeithas Ddrama; Hwyr; Parchg Robert Owen Griffiths

Ebrill 27ain: Bore a Hwyr: Mr Thomas Williams

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Bydd Dydd Gŵyl Dewi eleni yn ddiwrnod arbennig i aelodau cynulleidfa Gymraeg eglwys Teilo Sant – byddwn yn dathlu'r ŵyl yn yr eglwys gadeiriol yng nghanol Caerdydd. Mae'r gadeirlan wedi'i chysegru i Dewi Sant, a dyma fydd y tro cyntaf i'r Offeren gael ei dathlu yn Gymraeg yno ar Fawrth y cyntaf ers nifer fawr o flynyddoedd. Coffa da am Esgob Daniel Mullins gynt yn arwain y gwasanaeth a chôr Heathfield House yn canu yn Gymraeg. Bydd yn braf iawn cael croesawu'n cyfeillion o Eglwysi Cymraeg y ddinas i'r dathliad.

Y Tad John Patrick Thomas fydd yn dathlu'r Offeren – mae e wedi symud i Gaerdydd o'i blwyf yng Ngorseinon i ddechrau ar ei swyddogaeth newydd fel Caplan i Brifysgol Caerdydd a Thŷ Nasareth.

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Anne Uruska ar farwolaeth ei gŵr Iestyn Daniel ar ôl salwch byr. Mae Anne yn aelod ffyddlon o griw Teilo Sant. Bu'r teulu Daniel yn rhan annatod o weithgareddau'r Cylch Catholig ers y dechrau. Yn ddiweddar, bu Iestyn wrthi'n cyfieithu Llawlyfr y Sagrafennau i'r Gymraeg o'r newydd – gwaith manwl ac ysgolheigaidd iawn. Gorffwysed mewn hedd.

Rydym yn cydymdeimlo' hefyd â Lorrae a Geoff a'r teulu sydd wedi colli Tad-cu annwyl iawn, William David Davies, a fu farw'n ddiweddar. Gorffwysed mewn hedd.

Ar hyn o bryd, mae'r Eglwys fyd-eang yn gweddïo'n daer dros y Pab, ar iddo ddod drwy'r salwch difrifol mae'n ei ddioddef ar hyn o bryd, a chael iechyd a nerth i fugeilio'r Eglwys i'r dyfodol. Mae'n gysur gwybod ei fod yn cael pob gofal yn yr ysbyty, a bod gwylnos o weddi yn cael ei chynnal bob nos am 9.00 ar Sgwâr Sant Pedr i weddïo drosto.

Offeren fisol EglwysTeilo Sant: 30 Mawrth, 4.30pm, Sul y Mamau.

Mae'r Offeren ar gael yn fyw ar wefan yr eglwys: www.stteilos-olol.co.uk

## EGLWYS MINNY STREET

www.minny street.org
@MinnyStreet
Gweinidog: Y Parchedig Owain Llŷr Evans

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Ein Gweinidog fydd yn arwain oedfaon 2 a 9 Mawrth a'r oedfa hwyrol ar 16 Mawrth. Ni fydd oedfa ym Minny Street fore Sul, 16 Mawrth pan fydd eglwysi'r Cyfundeb yn dod ynghyd yn CyfUNdeb III (gweler y manylion isod). Cynhelir oedfa gymun nos Sul, 2 Mawrth ac ar Sul y Pasg (bore). Byddwn yn croesawu'r Parchedig Glyn Tudwal Jones i arwain yr addoliad fore Sul, 23 Mawrth. Oedfa aelodau fydd oedfa foreol 30 Mawrth ac ymunwn yng Ngŵyl Bregethu Eglwys y Tabernacl, yr Ais yn yr hwyr. Yn ystod oedfa foreol 2, 23 a 30 Mawrth y bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod ac am 17:00 ar 2 Mawrth y bydd PIMS yn dod ynghyd.

**Gweithgarwch y mis**

Cynigir sawl cyfarfod difyr yn ystod y mis. Bydd cyfarfod o Bethania (18 Mawrth am 19:00) yng nghartref aelod. 'Taith Gymreig o Loegr' fydd pwnc Geraint Rees yn y Gymdeithas nos Fawrth, 4 Mawrth (19:00) ac edrychwn ymlaen at noson ddifyr yng nghwmni ein cyd-aelod Aled Gwyn yng Nghinio Pen Tymor y Gymdeithas nos Fawrth, 25 Mawrth (19:00). Bydd cyfleoedd eraill i gymdeithasu ar deithiau cerdded wythnosol, dros baned mewn bore coffi ar 6 Mawrth (10:30) ac yn *Koinônia* ar 16 Mawrth (19:30).

**Aelod newydd**

Hyfrydwch fu cael croesawu Siân Howells yn aelod mewn oedfa gymun ddechrau mis Chwefror. Dymunwn bob bendith iddi yn ein mysg.

**Bore Sul, 16 Mawrth, 11:00–12:30**

***EDRYCH YMLAEN AT Y PASG*:**

Eglwysi Annibynnol Cyfundeb De-ddwyrain Cymru yn dod ynghyd yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf: caneuon cyfoes, darlleniadau a gweddïau yng nghwmni Ynyr (o Brigyn), cantorion o gorau CF1 ac Ifor Bach, Geraint Cynan, Huw M a Delwyn Siôn.

## EBENESER

**Noson y Gerddorfa**

Aeth criw da i noson Cerddorfa Philarmonic Caerdydd yn y Theatr Newydd ar 13eg o Chwefror. Mae'r cyngerdd hwn yn boblogaidd iawn wrth i'r gerddorfa chwarae cerddoriaeth o nifer o ffilmiau eiconig. Mae dwy o'n haelodau, Gwenda Lewis ac Esyllt Jones yn aelodau o'r gerddorfa. Gyda Neuadd Dewi Sant dal ar gau, roedd yn "brofiad tra gwahanol" perfformio yn Y Theatr Newydd, yn ôl Esyllt Jones. Er hynny cafwyd noson fendigedig yn ôl criw Ebeneser. Diolch i Catrin Jên am drefnu tocynnau ar gyfer y criw.

**Cyfiawnder**

Ar nos Lun, 17eg o Chwefror cynhaliwyd noson arbennig yng Nghanolfan y Gate, Y Rhath, Caerdydd gan y "Pray for Justice Tour" Penderfynodd criw cwrdd gweddi Ebeneser i fynd draw gyda'n gilydd i'r cyfarfod arbennig hwn. Roedd cyfarfodydd tebyg wedi eu trefnu ar hyd a lled Gwledydd Prydain. Bwriad y digwyddiadau hyn yw ein hannog fel eglwysi i weddïo'n benodol dros gyfiawnder yn enwedig ym maes masnachu pobl, sy'n broblem ddifrifol. Trefnwyd y noson gan ddwy elusen sef I. J. M. (International Justice Mission) a'r Red Community (gychwynnodd yng Nghaerdydd). Cafwyd cyflwyniad dwys am waith yr International Justice Mission ar hyd a lled y byd. Yna fe'n harweiniwyd i gynnull yn grwpiau bychan er mwyn gweddio gyda'n gilydd. Roedd yr arweinydd yn dweud yn glir wrthym beth ddylai fod testun ein gweddïau gan newid hynny yn gyson. I gloi'r noson fe siaradodd Dai Hankey, brodor o Gaerdydd, ac un sy'n ddiweddar wedi sefydlu eglwysi newydd yn Sblott a Waun Adda. Y mae'n gwenud llawer o waith gydag ymgeiswyr lloches a phobl sydd wedi eu masnachu yn y Brifddinas. Gellir cael rhagor o fanylion am yr elusen hon ar eu gwefan www.redcommunity.co.uk

## EGLWYS DEWI SANT

**Digwyddiadau Cerddorol**

Cynhaliwyd cyngerdd awr ginio dan nawdd *Actifyddion Caerdydd* ddydd Mawrth, 4ydd Chwefror. Pedwarawd llinynnol, *Yr Heath Quartet*, oedd yn perfformio gweithiau gan Haydn a Dvorak.

Pnawn Gwener, 14eg Chwefror, cafwyd datganiad organ dan nawdd *Cardiff Organ Events.* David Geoffrey Thomas oedd y datgeinydd.

Mae prosiect cerddorol sy'n darparu lle croesawgar i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn EDS yn mynd rhagddo, gyda Cherddorfa Dovetail yn cyfarfod yn yr Eglwys bob bore Iau.

**Bore Coffi a Chlonc**

Cafwyd cyfarfod bywiog iawn fore Sadwrn, 15eg Chwefror, gyda nifer o ffrindiau newydd yn ymuno â'r grŵp.

**Y Ganolfan Glyd**

Roedd nifer o Eglwys Dewi Sant ar ddyletswydd ddydd Sul, 23ain Chwefror. Diolch iddynt.

**Y Garawys**

Bwriedir cynnal gwasanaeth Cwmplin dros Zoom bob nos Fercher am 8.00 y.h. yn ystod y Garawys.

**Cymdeithasu**

Ceir cyfle i gymdeithasu dros ginio ddydd Mawrth, Chwefror 25ain, yn Côte Brasserie canol y ddinas. Y gŵr gwadd fydd y cyfansoddwr Geraint Lewis a thestun ei sgwrs fydd *Ei Daith Ffydd a'i Dylanwad ar ei Fywyd fel Cerddor a Chyfansoddwr.*

**Cloch Dewi**

Gobeithir cyhoeddi y rhifyn nesaf cyn y Pasg. Gofynnir am gyfraniadau.

## BETHEL, PENARTH

Da gweld Menna yn ei sedd yn dilyn mordaith go helyntus: tonnau tymhestlog Môr Iwerydd yn rhwystro glanio; gŵr Menna yn cael ei lorio gan salwch blin; Menna yn gorfod hunan-ynysu; eira yn New Orleans, y pedwerydd tro mewn canrif. Ar wahân i hyn oll…..

Cawsom orig hyfryd iawn ar Chwefror 20 yn ein clonc misol yn clywed am gamau mwyaf cofiadwy Bethan. Diolch iddi am gofio'n fanwl ac am gyflwyno'n ddifyr.

Mae Beca wedi cychwyn ar gam nesaf ei gyrfa wrth ymgartrefu yn Awstralia tan fis Hydref. Mae'n dal swydd yn St Peter's Lutheran College yn Brisbane, sy'n ysgol fonedd gydag enw da am hyfforddi nofwyr at safon Olympaidd. Prif ddyletswydd Beca yw cynnig cymorth amrywiol i'r merched yn eu cyrsiau a'u diddordebau, yn enwedig ar benwythnosau.

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr arweiniad a gawsom ar Suliau Chwefror. Ar yr 2il bu'n gweinidog yn trafod yr hanes am gyflwyno Iesu yn y deml (Luc 2, 22-40) a'r neges o ddisgwyl. Bu Parchg Gwilym Wyn Roberts ar y 9fed yn tynnu ar Salm 111 a hefyd yn ein goleuo ar hanes Credo Nicea, y mae eleni yn nodi 1700 mlynedd ers ei gyhoeddi. At efengyl Ioan (1, 29-42) aethom ar yr 16eg gyda'r Parchg Denzil John gan ystyried lle a natur tystiolaeth yn ein cyffes. Plethiadau'r stori am y sgwrs rhwng Iesu a'r wraig o Samaria (Ioan 4, 29-42) oedd sylfaen myfyrdod Sian Meinir ar y Sul olaf.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

Llawenydd mawr i ni i gyd yn ddiweddar oedd gweld dau o fechgyn ifanc yr eglwys, Bedwyr George ac Emrys Bowen, yn cael eu bedyddio. Roedd y ddau yn ddiolchgar iawn am eu magwraeth Gristnogol ond yn tystio i sut y daethant i ffydd bersonol yn Iesu Grist fel eu gwaredwr.

**Siop Swop**

Ganol y mis ar brynhawn Sadwrn cynhaliwyd Siop Swop yng nghlwb tenis yr Eglwys Newydd. Y bwriad oedd dod â llyfrau ac ategolion i'w cyfnewid, a chafwyd prynhawn braf o gymdeithasu. Bu tair o'r merched yn rhannu gyda ni am wrthrych oedd yn rhy werthfawr iddyn nhw ei gyfnewid. Clywsom am ddwy fodrwy ac un sgarff coleg! Rhannwyd hefyd bwysigrwydd ffydd bersonol y tair.

**Amser Paned**

Ceir cyfle ar fore Gwener, rhwng 10 y bore a hanner dydd, i fwynhau paned, sgwrs a chwmni, yn festri'r Tabernacl , yr Eglwys Newydd. Croeso cynnes i bawb.

**Beibl i Bawb.**

Yn ystod Chwefror roedd casgliad y mis ar gyfer gwaith Cyfieithwyr Wycliffe a daeth Tabitha Doey atom i sôn am waith y gymdeithas. Soniodd am y pwysigrwydd o sicrhau cyfieithiad o'r Beibl yn iaith y galon i wahanol genhedloedd. Yn sicr gallwn ni fel Cymry Cymraeg gytuno â hyn.

**Paned a Sgwrs**

Yn ddiweddar daeth Rhian Evans atom i sôn am waith y 'Scripture Union' yng Nghymru. Mae Rhian newydd ddechrau fel Cydlynydd Cenedlaethol Cymru. Rhannodd y ffaith drist bod 95% o blant a phobl ifanc Cymru heb unrhyw gysylltiad â chapel neu eglwys. Mae'r gymdeithas yn ceisio cydweithio gyda eglwysi lleol yng Nghymru yn y gwaith o geisio cyrraedd y bobl ifanc hyn â'r Efengyl sy'n gallu newid eu bywydau. Dymunwn bob bendith iddi yn y gwaith gwerthfawr hwn.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

## Podlediad newydd *Sut i Ddarllen* – sgyrsiau gonest a dadlennol am ddarllen

Mae cyfres podlediad newydd sbon, *Sut i Ddarllen*, wedi cael ei lansio ddydd Llun 10 Chwefror 2025, gan Gyngor Llyfrau Cymru.

Mewn cyfres chwe phennod, bydd Francesca Sciarrillo yn sgwrsio am ddarllen gyda gwesteion arbennig. Mae'r sgyrsiau gonest yn trafod pob math o agweddau ar ddarllen – o'i ddylanwad i'w effaith ar ein bywyd bob dydd.

Ymysg y gwesteion sy'n rhannu atgofion ac argymhellion darllen mae Sion Tomos Owen, Kayley Roberts a Manon Steffan Ros. Sion Tomos Owen ydy gwestai'r bennod gyntaf, ac mae'n trafod darllen pedwar llyfr ar yr un pryd, agweddau snobyddlyd tuag at gomics a chariad at lyfrgelloedd.

Mae Francesca Sciarrillo yn Swyddog Hyrwyddo Darllen gyda Chyngor Llyfrau Cymru. Mae hi hefyd yn wyneb cyfarwydd a hithau'n gyd-gyflwynydd rhaglen gelfyddydol *Y Sîn* ar S4C a cholofnydd i gylchgrawn Lingo Newydd a Lingo 360.

Meddai Francesca: "Fel un sy'n llyncu llyfrau, roedd hi'n bleser cael sgwrsio gyda gwesteion mor arbennig, a dod i ddeall mwy am eu perthynas nhw gyda llyfrau. Roedd yn amrywio o'u hatgofion darllen cyntaf i'w harferion darllen heddiw, o'r llyfrau hynny nad oedd modd iddynt eu rhoi lawr i'r llyfrau hynny sydd dal heb eu gorffen. Mae'r sgyrsiau yn ddadlennol ac yn ddifyr a dwi methu aros i'w rhannu!"

Meddai Bethan Jones, Pennaeth Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen, Cyngor Llyfrau Cymru: "Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn credu yng ngrym trawsnewidiol darllen er pleser a'i effaith gadarnhaol ar ein lles a'n hiechyd meddwl. Rydym wrth ein boddau yn cyflwyno'r podlediad newydd yma sy'n cynnig gofod i drafod darllen a llyfrau o bob math, ac yn dangos nad oes na un ffordd gywir o fwynhau darllen a bod yna lyfr i bawb."
https://youtu.be/G_PER44FY6o?si=7V1LoY4j_-plopmz

Mae modd gwrando ar y podlediad ar amryw o blatfformau ffrydio yn cynnwys Y Pod ac AM, neu gwylio'r gyfres ar YouTube. Bydd pennodau eraill y

# Dathlu Gŵyl Dewi yn y Ddinas

***Baner Y Dinesydd yn amlwg ym Mharêd Dydd Gŵyl Dewi yng nghanol Caerdydd***

**Blwch blodau yn y parc yn Radur a addurnwyd yn arbennig ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi gan gangen Bro Radur o Ferched y Wawr.**




***Llun: Megan***





# Bwytai Merch y Ddinas

## *Gwanwyn yn y Ddinas*



**Lowri Haf Cooke**

Cyfarchion y tymor! A llongyfarchiadau, wir, i fwyty arobryn Gorse, Pontcanna. Am y tro cyntaf mewn hanes, dyfarnwyd seren Michelin i fwyty yn y ddinas. Nid peth bach mo hynny o gwbl; gall ennill gwobr bwyd rhyngwladol ddenu llewyrch pellach i ardal. Aeth bron yn hanner can mlynedd heibio ers gwobrwyo'r seren gyntaf i Gymru. Bwyty The Crown At Whitebrook yn Sir Fynwy oedd hynny, dan arweiniad Sonia Blech yn 1976. A dim ond cynyddu wnaeth nifer bwytai serenog Sir Fynwy ers hynny, The Walnut Tree, Llanddewi Ysgyryd, a Chapters y Gelli Gandryll (sy'n meddu ar seren werdd) yn eu plith. Ac mae gan Fro Morgannwg seren ers bron i ddegawd bellach, diolch i weithgareddau James Sommerin (gynt o'r Crown at Whitebrook) ym Mhenarth ers 2016. Ers hynny dyfarnwyd dwy wobr 'Bib Gourmand' gan feirniaid Michelin i fwytai'r fro, yn achos yr Hare and Hounds (Aberthin) a The Touring Club (Penarth). Gwobr i ddynodi gwerth am arian yw hynny... ac fe ddoi 'nôl at hynny yn y man.



Ond 'nôl at fwyty Gorse, bwyty 'gorau' Caerdydd – yn ôl y beirniaid Michelin; es i ddwywaith y llynedd, ac unwaith yn 2023, pan oedd yn dal i fod yn fwyty 'dros dro'. Beth gewch chi yno yw 'profiad bwyd', a chyfres o seigiau bychain, i gyd yn cynnwys blasau gorau Cymru, a chynhwysion yn eu tymor. Nid stecen a gewch, na 'llond platiad' o 'sgod a sglods, ond gewch chi bendant agoriad llygad. Dros yr hydref a'r gaeaf, mwynheais gig carw, madarch, a phenfras, tra dros yr haf cynigir flasau ysgafnach; salad tomato gyda mefus wedi'u piclo, a chegddu gyda chregyn gleision. Y cyfuniad perffaith felly o flasau'r môr a'r mynydd.




Ond ceir un saig gyson ar bob bwydlen, ym mhob tymor; bara enwyn gyda menyn gwymon 'lawr'. Tom Waters yw'r cogydd, sy'n wreiddiol o Gasnewydd, ond a aeth i Lundain i fwrw'i brentisiaeth, dan adain cogyddion fel Bryn Williams o Ddinbych. Ond roedd yn ysu i ddychwelyd adre i agor bwyty yng Nghaerdydd; a dyna ddigwyddodd toc wedi'r pandemig. Mae'r gweddill yn hanes!

Ar lefel bersonol, chewch chi'm croeso cynhesach – yn wir mae'r geiriau 'Croeso i Gorse' i'w gweld yn gir ar ddrws y fynedfa. Os nad ydy bwydlen ddeg cwrs am ganpunt yn apelio cweit eto, ga i'ch temtio i ymweld am ginio am bris mwy rhesymol o bedwar cwrs am £45? Gwyddom oll fod Pontcanna yn ferw o weithgaredd ym myd y bwytai ers degawdau lawer. Ond i'r ymwelydd rhyngwladol, rhaid dweud fod Gorse yn gyflwyniad a hanner i amrywiaeth ddifyr o fwytai, delis a chaffis 'Cymreig'. Cymerwch lobscows Deli Canna, cwrw lleol Pipes Pontcanna, a bwydlen odidog cegin Hiraeth, Parc Fictoria. Mae brecwast Milkwood yn gampus – diolch i fwydlen Gwyn Myring o'r Rhondda, heb sôn am arlwy ardderchog Tom Simmonds o Sir Benfro ym mwyty Thomas, a hefyd ei fecws hyfryd, Ground Pontcanna.

Sôn am glwstwr o fentergarwch a phrofiadau cyfoethog, heb sôn am Uisce a Heaney's rownd y gornel. Sy'n fy arwain i'n ddestlus at newydd-ddyfodwr i'r ardal, sy'n bendant werth ymweliad. Ganol mis Rhagfyr agorodd fwyty newydd Ember, ble safodd Bully's am flynyddoedd lawer. Fel mae'r enw'n awgrymu, coginio ar dân agored sy'n sail i'r fwydlen, dan arweiniad y cogydd Dave Killick, gynt o dafarn fwyd yr Heathcock yn Llandaf. Gair yma gyda llaw i longyfarch yr Heathcock ar ennill wobr 'Bib Gourmand', fel yn achos ei frawd-fwyty yr Hare and Hounds. Mae Tommy Heaney hefyd yn bartner yn y busnes newydd sbon, ac felly fe ddylai'r fath galibr eich cyffroi ymhellach!

Dau air sy'n neidio i'r meddwl ar sail fy mhrofiad cyntaf o Ember. Bwyd Cysur! Yn sicr, o ran pris y fwydlen ganol dydd, rhyfeddol o resymol am y fath safon; £20 am ddau gwrs neu £25 am dri. A hefyd o ran yr effaith ar gorff a fu'n gaeafu; teg dweud i mi gael 'llond bol', a hynny mewn ffordd dda! Ar ddiwedd mis Chwefror, ges i terrine bol porc a saws afal i gychwyn, cyn sglaffio powlen o basta ffres gyda saws cig carw, a gorffen gyda phestri cwstard a riwbob. Godidog! Ewch yno ar garlam, i gael manteisio ar y fath fargen. Wedi misoedd o aeaf-gysgu, braf yw cael deffro a chymdeithasu. Byddwch yn garedig â'ch hun felly, a gwnewch y pethau bychain, chwedl Dewi - fel aildanio eich egni yn Ember!

Ember, 5 Cilgant Romilly, Pontcanna CF11 9NP; 02922 972274

*Bwytai Cymru* gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer), £9.99

# Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

Mae sôn am gyfarfod i ddathlu'r Nadolig yn ymddangos yn chwithig iawn, erbyn hyn, a ninnau'n troi'n golygon tua Gwyl Dewi! Serch hynny, daeth bron i 70 o giniawyr at ei gilydd i fwynhau cinio Nadolig hyfryd iawn yn y New House, nos Lun Rhagfyr 3ydd. Ein gwesteion oedd Marged Hughes a Steffan Jones, cerddorion tan gamp. Cawsom ddetholiad o garolau hen a newydd ganddynt ac ninnau yn ymuno mewn ambell gorws a charol gydag arddeliad! Noson hyfryd a hwyliog i gyfarfod ffrindiau hen a newydd.





Daeth criw da draw i'r New House ddechrau Chwefror, unwaith eto, i fwynhau cwmni da, pryd blasus a sgwrs ddifyr gan ein gŵr gwadd, Alun Wyn Bevan. Yn ffodus, ar y nos Lun wedi crasfa i'n tîm rygbi cenedlaethol yn erbyn Ffrainc, nid am chwaraeon y siaradodd Alun Wyn. Ei bwnc oedd merch hynod a fu'n byw yng Nghastell-nedd am ddeng mlynedd ar hugain, sef Winifred Coombe Tennant.

Roedd enw Winifred yn ddieithr i'r rhan fwyaf ohonom ond cawsom glywed am gymeriad arbennig iawn oedd yn byw ar droad yr 20fed ganrif. Roedd yn ferch i deulu cyfoethog ac fe briododd i mewn i deulu cyfoethog arall oedd a chysylltiadau â Thraphont Dŵr Aberdulais. Ni chafodd blentyndod sefydlog ond, drwy ei harosiadau yn Ffrainc, yr Eidal a'r Swistir, roedd yn rhugl mewn sawl iaith ac ehangodd ei gorwelion i'r byd arlunio a'r celfyddydau yn gyffredinol. Gyda'i gŵr, Charles Coombe Tennant, symudodd i fyw i Gastell-nedd a bwrw i wasanaethu'r gymuned a'r wlad ble roedd yn byw.

Roedd hi'n genedlaetholwraig o argyhoeddiad, y ferch gyntaf ym Morgannwg i fod yn YH, ac yn cefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol gydag arddeliad yn ogystal â'r mudiad dros hawliau etholiadol i ferched. Roedd yn troi yn y cylchoedd cymdeithasol dosbarth uwch hefyd: yn nabod teulu'r Balfours, Lloyd George, Gwen ac Augustus John i enwi ond ychydig. Merch a hanner, Cymraes i'r carn, sydd mewn perygl o fynd yn angof gennym.

Bydd ein cyfarfod nesa ar nos Lun Ebrill 7ed, pan edrychwn ymlaen at groesawu ein gŵr gwadd y newyddiadurwr Eifion Glyn. Os hoffech ymuno â ni, cysyllter â Paul Morgan ar cylch.cinio@gmail.com.

*Bethan Whittall*

# Merched y Wawr Bro Radur

Oherwydd tywydd gaeafol, bu'n rhaid gohirio ein cyfarfod cyntaf y tymor hwn, felly ar nos Fercher 5 Chwefror, Cat Gardiner oedd ein gwestai cyntaf eleni.

Cyn-ddisgybl yn ysgol gynradd Bro Eirwg ac Ysgol Glantaf ydy Cat, a rhoddodd gip inni ar daith ddifyr ei gyrfa hyd yma. Wedi astudio Celf yn y Brifysgol yn Aberystwyth ac yna ennill gradd uwch mewn Curadu yng ngholeg Kingston, Llundain, dychwelodd i Gaerdydd.

Wedi profiad o weithio yn oriel Martin Tinney, gwelodd fod cyfle i ddatblygu'r celfyddydau gweledol Cymreig. Felly, yn 2010, sefydlodd y galeri 'TEN', gyda deg artist y gallai hi eu hybu a'u cynrychioli. Bu'n rhaid defnyddio siopau gwag i ddechrau. Yna, am bedair blynedd, llwyddodd i redeg ei horiel fechan ei hun yn 23 Windsor Place. Wedyn, yn 2016, fe lwyddodd ymhellach drwy droi ei chartref yn oriel ar gyfer arddangosfeydd. Y cam nesaf oedd prynu ac adnewyddu'r Coach house oedd yn ffinio â gwaelod ei gardd, a throi hwnnw yn ofod golau a hwylus ar gyfer arddangosfeydd. Cyfeiriad galeri 'TEN' (Celf Gymreig Newydd) ydy 143 Donald Street, Caerdydd CF24 4TP, info@gallery-TEN.co.uk

Cafodd Cat Gardiner wrandawiad astud a nifer o gwestiynau ar y diwedd. Diolchodd ein llywydd, Eirian Dafydd, iddi, a dymuno pob llwyddiant i oriel 'TEN' yn y dyfodol.

*Gwen Emyr*



# Pobol y Rhigwm

Daeth pedwar englyn a phum triban i fewnflwch y beirniad y mis hwn, a theg yw dweud eu bod nhw'n amrywio o ran eu themâu a'u safon. Cymysgedd go iawn o'r dwys a'r digri, sy'n rhoi sylw ar drothwy'r Pasg i'r Oen Dwyfol ac ŵyn bach fel ei gilydd. Cadarnhaol yw nodi bod pob ymgeisydd wedi bodloni gofynion y ddau fesur o ran mydryddiaeth a'r gynghanedd (er bod y mynegiant fymryn yn herciog mewn ambell ymgais). Fodd bynnag, fy ngreddf yw bod gweithio o fewn cyfyngiadau'r mesurau wedi cymylu'r ystyr, ar brydiau. Rwy'n gwybod o brofiad nad yw'n hawdd mynegi rhywbeth yn glir, o fewn paramedrau mydryddol llym. Mae hynny'n gofyn am ddisgyblaeth. Llwyddodd y rheini sy ar y brig i gyflawni hynny, a chyn inni gael golwg ar eu cynigion nhw, dyma air neu ddau am y gweddill (pob un â'u rhinweddau):

Mae gan *Mintys* driban ffraeth sy'n rhychwantu'r Oen sanctaidd a'r cig oen ar ei blât! Mae'n gynnig digon gwreiddiol, ond mydryddiaeth anwastad sy'n ei atal rhag ymuno â'r praidd ar dir uwch. Tybiaf mai'r gynghanedd sy wedi llywio dewis geiriau *Un ymhlith llawer* yn bennaf – mae'n englyn disgrifiadol, sy'n gorffen â'r ymadrodd amlwg, ond doniol, "nid yw moch yn dweud mê"! Mae paladr englyn *Clarkson* yn ardderchog:

Gwelais un gwana'r Cae Gwaelod – yn wledd
O wlân i lwynogod.

Mae'n resyn nad yw'r esgyll – yn enwedig y llinell glo wamal – yn ategu'r safon hwn, a thybiaf mai cyfyngiadau'r mesur sy'n peri hynny.

Nawrte, anfonodd *Trefn* nodyn byr gyda'i driban yn dweud ei fod "wedi heijacio'r testun", ac yn rhagweld na châi ei gyhoeddi! Mae'n driban crefftus iawn ei fydryddiaeth, *Trefn*. Y trwbwl yw nad ydw i cweit wedi ei ddeall! Ai triban dychanol yw hwn am y genhedlaeth hŷn yn cael y trechaf ar feirdd Eisteddfodol ifanc? Rwy wedi'i ddarllen a'i ailddarllen, ond wedi methu a'i ddehongli'n wahanol. Ta beth, fe *wna* i ei gyhoeddi, gan adael i ddarllenwyr y golofn hon dynnu eu casgliadau eu hunain!

Roedd oen ar Fynydd Gwenfair
yn sgwennu cywydd deuair.
Pan gododd i lydanu'r bwrdd,
lladratodd hwrdd ei gadair.

Mae tribannau *A dweud y gwir* a *Disynnwyr* o fewn y dim i gyrraedd y podiwm. Chwaeth yw'r unig benderfynydd o'r pwynt hwn ymlaen. Mae rhyw ddelwedd iasoer yn nhriban *A dweud y gwir*, wedi'i fynegi'n gynnil, ac mae'r gymhariaeth yn y llinell glo'n rhyfeddol o wreiddiol (digwydd bod rwy'n teipio hwn ddeuddydd cyn i'r Adar Gleision wynebu tîm y llew o dan sylw yng Nghwpan Lloegr!):

Yn hwyr, mae'n bwrw eira;
mae haen dros fferm a'i hŵyna,
ac ar y gwair roedd ffigur gwyn,
sy'n felyn fel llew Villa.

Er bod triban amserol *Disynnwyr* yn gwbwl uniongyrchol wrth gyfleu delwedd druenus, ac yn adleisio barn cynifer o bobl, mae wedi'i fynegi'n esmwyth, ac yn argyhoeddi:

Zelensky, Trump a Putin

Llef oen sy'n ddewr a 'styfnig,
A bloedd dau flaidd sy'n lloerig!!
O pam mae'n rhaid i'r rhai di-nam
Ddioddef cam mor ddieflig?

Dau englyn ac un triban sy'n cael lle ar y podiwm y mis hwn. Mae gan bob ymgeisydd afael gref iawn ar ofynion eu mesur dewisedig, ac mae'r cyfan wedi'i weithio'n grefftus o ddealladwy.

Mae *Y Tŷ ŵyn* yn englynwr hyderus, sy'n meddu ar y gallu i gyfleu sefyllfa ddwys yn syml, ac ar gynghanedd. Yn wahanol i *Disynnwyr*, wnaeth fynd i'r un trywydd, mae *Y Tŷ ŵyn* wedi ymateb i'r trafodaethau diweddar ynghylch Wcráin yn awgrymog, gan wneud defnydd gwych o'r teitl fel symbyliad. Dyna'r ergyd, yn y bôn. Gwaetha'r modd, mae'n rhaid i fi dynnu marciau gan y byddai'r puryddion yn dadlau na chaniateir cynghanedd Lusg ar ddiwedd englyn ar unrhyw gyfrif, ni waeth pa gynghanedd arall yw hi!

Er eu nerth fe abertha – y rhai cryf
Yr Iwcráin i'r lladdfa,
A neb yn meiddio dweud na
I gynnen y bargenna.

Mae *Parti Byr* yn englynwr digri o'r iawn ryw! Mae e hefyd yn gynganeddwr medrus, gyda'r gynghanedd gysylltben yn y linell agoriadol yn tystio i hynny. Mae'r llinell glo, wedyn, yn llinell Groes o gyswllt ddiymdrech o arbennig! Mae'r cyfan yn gynnil-gydlynol. Un mân-bwynt cystrawennol, mae angen treiglo 'partner' yn y drydedd linell. Gydag ymddiheuriadau diffuant i'r llysieuwyr a'r feganiaid yn eich plith, felly:

Nid yw ŵyn sydd yn dawnsio – yn barod
i beiriant chwyrlïo,
a'u troi, partner ar y tro,
yn gig oen i'w goginio.

Triban *Crwydryn*, heb os, yw ymgais fwyaf gorffenedig y mis hwn. Does dim amheuaeth pa Oen sydd o dan sylw, ond mae'n driban sy wedi dal hanes a hanfod y Pasg i'r dim, gyda dewis meddylgar o eiriau wedi'u gwau i driban sy'n llifo'n rhwydd – cefais fy mhlesio'n arw gan y triban hwn, llongyfarchiadau mawr:

Yr oeddwn yn y dyrfa
Anfonodd Ef i'r lladdfa,
Ond deil o hyd i faddau bai
Heb drai yn ninas noddfa.

*Aron Pritchard*

**Enillydd Chwefror**
**Trefor Jones, Pentre'r Eglwys**

**Cystadleuaeth mis Mawrth**

Pennill, heb fod dros bedair llinell: **Trên**

*Anfonwch eich cynigion erbyn 22 Mawrth at:*
*eirianagwilym@gmail.com*
*Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

# Cynlluniau prif gwmni syrcas Cymru i hybu'r Gymraeg




Mae syrcas NoFit State o Gaerdydd yn perfformio i gynulleidfaoedd ledled y byd yn eu Big Top yn ogystal â chynnig rhaglen gymunedol helaeth o'u canolfan yn Four Elms, Adamsdown.

Mae'r Cwmni, a sefydlwyd yn 1986, wedi bod yn adolygu ei ddarpariaeth Gymraeg yn ddiweddar ac mae ganddo gynlluniau cyffrous at y dyfodol.

"Celfyddyd weledol yw syrcas yn bennaf, heb lawer o eiriau, felly rydym bob amser yn gorfod meddwl yn greadigol sut i gynnwys y Gymraeg yn ein gwaith," esboniodd Jo Taylor, Rheolwr Prosiectau Cymunedol.

"Mae ein dosbarthiadau cymunedol a'n rhaglen gymunedol yn cyrraedd pob math o bobl o Adamsdown, Sblot a Thremorfa, â nifer o geiswyr lloches a ffoaduriaid yn eu plith. Mae'r bobl sy'n cymryd rhan yn siarad llawer o wahanol ieithoedd, felly mae hyn hefyd yn rhywbeth y bu'n rhaid i ni ei ystyried."

Mae'r cwmni'n bwriadu cynnig dosbarth sgiliau syrcas i bobl ifanc a hoffai ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ond roedd dod o hyd i hyfforddwyr syrcas profiadol sy'n siarad Cymraeg yn dipyn o her.

Penderfynodd y cwmni fynd i'r afael â'r her ac mae nifer o'r staff craidd, yn cynnwys hyfforddwyr syrcas, yn mynd i ddosbarthiadau Cymraeg, mewn partneriaeth â staff yng nghanolfan Oasis a 'Dysgu Cymraeg'.

Yn ogystal, maent yn dechrau prosiect 'Celf Cymraeg' yn 2025 ac wedi partneru â Menter Caerdydd i drefnu prosiectau creadigol Cymraeg yn Nwyrain Caerdydd a fydd i'w gweld yn Tafwyl ym mis Mehefin 2025.

"Ein gobaith, trwy wneud dysgu Cymraeg yn rhan o ddiwylliant NoFit State, gan gynnwys ein rhanddeiliaid a'n staff rhyngwladol, a gwreiddio diwylliant Cymru yn ein gwaith creadigol, yw y gallwn ddangos ein hymrwymiad i hyrwyddo'r iaith yng Nghymru ac wrth fynd ar daith i fannau eraill."



## Diolch yn fawr

**Dymuna pwyllgor *Y Dinesydd* ddiolch yn fawr iawn i Ferched y Wawr Bro Radur ac i Gwilym Roberts am eu rhoddion hael tuag at gynnal ein papur bro.**

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

Gyda diwedd y flwyddyn dreth yn prysur agosáu a newidiadau treth posib ar y gweill gyda Datganiad y Gwanwyn gan y Canghellor ar 26 Mawrth, dyma rai materion i chi eu hystyried cyn diwedd y flwyddyn dreth:

1. ***Taliadau bonws*** - ydych chi'n rhagweld y byddwch yn derbyn bonws mawr wrth eich cyflogwr cyn diwedd y flwyddyn dreth? Os felly, dylech chi wirio os bydd y bonws yn golygu bydd cyfanswm eich incwm yn croesi trothwy treth uwch, neu yn croesi trothwy i orfod ad-dalu budd-dal plant.

   Os bydd y bonws yn codi cyfanswm eich incwm dros £50,270, byddwch yn talu peth treth incwm ar 40%. Os bydd cyfanswm eich incwm, gyda'r bonws, rhwng £100,000 a £125,140, efallai byddwch yn talu treth incwm ar 60%(!) ar rywfaint o'ch incwm.

   Mae modd lleihau'r baich treth mewn rhai amgylchiadau, trwy opsiynau megis ***taliadau pensiwn personol*** neu ***roddion elusennol***, ond mae angen cwblhau unrhyw daliadau fel hyn cyn 5 Ebrill 2025.
2. ***Rhoddion*** - ydych chi'n bwriadu gwneud unrhyw roddion ariannol i aelodau o'r teulu? Gallwch roi hyd at ***£3,000 bob blwyddyn dreth bydd wedi'i heithrio rhag treth etifeddiaeth***. Hefyd, os nad ydych wedi defnyddio lwfans £3,000 y flwyddyn flaenorol, mae modd cario'r lwfans yma ymlaen hyd at un flwyddyn dreth yn unig.
3. ***Cyfrifon Cynilo Unigol (ISAs) -*** ydych chi wedi defnyddio eich ***lwfans ISA di-dreth o £20,000*** yn llawn eleni? Mae cyfraddau llog uwch ar gynilion yn golygu bod nifer yn derbyn llog sy'n fwy na'r lwfans di-dreth (sef £1,000 ar gyfer trethdalwyr cyfradd sylfaenol a £500 ar gyfer trethdalwyr cyfradd uwch).

   Gwiriwch gyda'ch priod/partner os ydynt wedi defnyddio ei lwfans blynyddol a chofiwch bod eich plant hefyd yn derbyn lwfans ISA ar wahân o £9,000 y flwyddyn.
4. ***Lwfans priodas*** - gall pâr priod/partneriaeth sifil ***arbed hyd at £252 o dreth incwm*** bob blwyddyn os yw un partner yn ennill llai na £12,570 ac os yw'r partner arall yn drethdalwr cyfradd sylfaenol (h.y. incwm blynyddol o dan £50,270). Mae'r Swyddfa Dreth yn nodi gall mwy na 2 filiwn o barau fod yn gymwys i hawlio 'lwfans priodas'. Gwiriwch os ydych yn gymwys ar wefan Gov.uk.
5. ***Gwerthu asedau -*** cofiwch y gwnaeth cyfraddau treth ar eiddo newid ym mis Hydref 2024 ar gyfer gwerthiant pob ased (oni bai am werthiant tai preswyl). O 30 Hydref 2024 ymlaen, cododd cyfraddau treth ar werthiant asedau o 10%/20% i 18%/24%.

   Cofiwch, felly, wrth asesu'ch bil treth am eleni, os ydych chi wedi gwerthu asedau megis cyfranddaliadau yn ystod y flwyddyn, bydd angen defnyddio cyfraddau treth gwahanol, gan ddibynnu ar ddyddiad y gwerthiant. (Dyw hyn ddim yn effeithio ar werthiant tai preswyl.)

*Cysylltwch os hoffech drafod unrhyw fater cyn diwedd y flwyddyn dreth.*

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni drwy: Huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

## Cyfrol Newydd gan un o fechgyn Caerdydd

Cyfrol newdd sy'n adrodd rhai o hanesion ffigurau mwyaf adnabyddus ein hanes a digwyddiadau rhyfeddol nad oes esboniad iddynt yw 'Straeon Hynod yn ein Hanes' gan Melfyn Hopkins.

Brodor o Gaerdydd yw Melfyn sy'n parhau i fyw yn y brifddinas. Astudiodd Hanes a Hanes Cymru yn y Brifysgol. Ar ôl ymddeol yn gynnar o ddysgu, ail hyfforddodd i ddysgu pobl i yrru yng Nghaerdydd.

Wrth ddysgu pobl o bob cwr o'r byd i yrru, dechreuodd eu dysgu hefyd am ein hiaith a'n hanes a son am rai o lefydd hanesyddol Caerdydd. Fe ddaeth yr elfennau hyn yn boblogaidd a chyfeiriwyd atynt fel 'factoids' gan rai o'r dysgwyr. Roedd un o'r dysgwyr yn ysgrifennu i gylchgrawn iechyd ac awgrymodd iddo ysgrifennu'r hanesion a cheisio eu cyhoeddi nhw. Anfonodd yr erthyglau i'r Cymro a derbynion nhw'r synaid.


Yn y llyfr mae wedi cael y cyfle i ymhelaethu ar rai o'r hanesion rhyfeddaf. Gobaith y llyfr yw codi ymwybyddiaeth am rai o straeon hynod ein hanes y y gobaith y bydd rhai ohonynt yn arwain i rai i ddarganfod mwy am ein hanes unigryw fel cenedl.


**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***

**ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif @DinesyddCdydd**

**ac ar Facebook drwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

## Rhif: 250



**Ar Draws**
7. Anwesu calon llanc sy'n crio (6)
8. '----- Israel sydd ofalus
Am ei dyner annwyl ŵyn' (MD) (6)
10. Braw'r bwlch arswydus (7)
11. '----- ----- fendith
Cadw'n gwlad o oes i oes' (JTJ) (3,2)
12. ----- o'r unlliw a hed i'r unlle (4)
13. Pren pigog yn y ffos yn Lloegr (5)
17. 'Cofia'n -----, Benllywydd tirion
Dy gyfiawnder fyddo'i grym' (HEL) (5)
18. Yn llawen droi'n ôl i gael torth (4)
22. Colli anadl o'r helynt am yr offeryn cerdd (5)
23. Fel dŵr i lyn daw'r cefnogwr (7)
24. Sŵn cath mewn ia efallai (6)
25. Dyn y môr a'i gymar (6)

**I Lawr**
1. Proffwydoliaeth yn y trydar o Gantre'r Gwaelod (7)
2. '----- a roddwyd i'm gofal yw Cymru fy ngwlad' (SL) (7)
3. Cario can gêm bwrdd (5)
4. Mae cynllun da i ni yn cynnwys mynd i'r ddinas (7)
5. Beth yw hyd a lled Anti M.? (5)
6. Y gât i'r Gogledd Ddwyrain (5)
9. 'Er mwyn dy Fab a'i prynodd iddo'i hun,
O! crea hi yn ----- ----- ----- lun' (LV) (5,2,2)
14. A yw'r cnaf Wyn yn grwgnach? (7)
15. Dial naw yn haeddu arian n'ôl efallai (7)
16. '----- gwir Gymreigrwydd – iaith ei fam,
Mae wrth ei fodd beunydd' (WW) (7)
19. Creu argraff ar amlen (5)
20. Dyn mawr yn dal pum deg caead (5)
21. 'Fe'th welais di mewn llester pridd
Ar ffawydd ffwrdd gwerinwr -----' (IDH) (5)

**Enillydd Croesair Rhif 248**
**Dafydd a Jen Williams, Penylan, Caerdydd**

**Atebion Croesair Rhif 248**

**Ar Draws**
7. Lawnt 8. Gwireddu 9. Seinio'n 10. Tranc
12. Hafddydd y nef 15. Trwy ei nerth 17. Gwent
18. O forwyn 20 Ceidwad 21. Nythle

**I Lawr**
1. Glaswelltog 2. Gwair 3. Eto i 4. Egin 5. Eistedd ar
6. Ceraint 11. Cyfiawnder 13. Abertawe 14. Gwledig
16. Pwytho 18. Oedi 19. Ofni

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Ebrill 5
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Yng nghyfarfod olaf mis Ionawr bu'r aelodau yn dathlu Penblwydd 90 oed Gwenda Morgan, un o sylfaenwyr yr aelwyd. 33 mlynedd yn ôl, pan oedd ei rhieni yn byw gyda hi, gwelodd Gwenda Morgan yr angen am rywle i'r bobl hŷn gwrdd a chymdaethasu. Roedd y diweddar Elonwy Jones yn yr un sefyllfa, a diolch i'r ddwy fe sefydlwyd Aelwyd Hamdden. Bu'r Aelwyd yn cwrdd yng Nghapel Minny Street, ond ar ôl cyfnod Covid, mae'r Aelwyd yn cwrdd yng Nghapel Bethel, Maes-y-Deri, Rhiwbeina. Cafwyd bore hyfryd yng nghwmni yr aelodau.

Yna dechrau Chwefror cawsom sgwrs gan Sharon Owen am Gymorth Cyntaf, Dangosodd sut i wneud CPR ar glaf, ac esboniodd sut i ddefnyddio *defribulator*.

I ddathlu Gŵyl Dewi mwynhawyd pryd o fwyd yn y Butchers Rhiwbeina.

Os hoffech ymuno â'r aelwyd ac am gael manylion y cyfarfodydd, cysylltwch â Beth Killen 02920566506, Mae croeso i aelodau newydd i ddod atom bob yn ail fore Mercher rhwng 11 a 12, i gymdeithasu.

*Mair Morgan*

## Mis Mawrth gyda'r Mentrau

O glwb gwyddbwyll newydd i blant i sesiynau sgwrsio, dyma gipolwg ar rai o weithgareddau Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg yn ystod mis Mawrth.

**Laffwyl a Laffwyl Bach**

Daniel Glyn, Beth Jones, Laurie Watts-Keane a Gwenno Dafydd fydd yn cadw cwmni i'r MC Aled Richards yn y Laffwyl nesaf ar nos Iau, 27 Mawrth yn Nhafarn Parc Fictoria. Mae tocynnau ar gael am £10 o wefan Menter Caerdydd ond yn debygol o werthu'n gyflym.

Mewn datblygiad cyffrous, bydd aelodau ifanc y teulu hefyd yn cael 'laff' mewn digwyddiad arbennig brynhawn Sadwrn, 29 Mawrth yn y Pafiliwn Grange. Daniel Glyn, Aled Richards a Beth Jones fydd yn codi'r hwyl yn Laffwyl Bach gyda'r tocynnau ar gael ar y wefan am £8.

**Sgwrs y Mis**

Llyfr newydd am y Goresgyniad yn Sir Benfro ym 1797 fydd dan sylw yn ein sgwrs Zoom nesaf, nos Lun, 24 Mawrth. Bydd yr awdur, Dr Hywel M Davies, yn canolbwyntio ar fywydau tair menyw oedd yn ganolog i'r digwyddiadau; Jemima Nicholas, Nansi Jones, a Mary Williams. Wrth olrhain eu hanes, cawn ddod i ddeall ochr ddifrifol a threisgar y Goresgyniad sydd yn aml yn cael ei bortreadu fel digwyddiad chwedlonol, lled-gomig. Bydd y cyflwyniad yn amlygu argraff gymdeithasol a diwylliannol goresgyniad Ffrainc mewn cyd-destun hanesyddol. Yn ogystal, cawn glywed sut yr ysbrydolodd Goresgyniad y Ffrancwyr ffigurau llenyddol gwahanol iawn eu naws - o Wilkie Collins i Ceiriog a Harri Webb.

**Siaradwyr Newydd a Sesiynau Sgwrsio**

Ydych chi'n dysgu Cymraeg neu'n awyddus i gael sgwrs dros baned? Cofiwch am ein sesiynau sgwrsio rhad ac am ddim:

- Hyb Ganolog – bob prynhawn Iau am 3.00 – pob lefel
- Hyb Rhydypennau bob yn ail fore Iau (13 a 27 Mawrth am 10.30 – pob lefel)
- Hyb Rhiwbeina bob yn ail fore Gwener (7 a 21 Mawrth am 10.30 – Mynediad)
- Zoom – dydd Gwener, ola'r mis (28 Mawrth am 10.30, pob lefel)

Byddwn hefyd yn ymuno â chriw Dysgu Cymraeg Caerdydd a thîm Addysg Amgueddfa Sain Ffagan ar fore Gwener, 7 Mawrth i fwynhau llu o weithgareddau i ddysgwyr.

**Prynhawn Cymraeg i'r Teulu – Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Sadwrn, 22 Mawrth, 14.00 -16.00. Am ddim.**

Ydych chi'n nabod rhywun sy'n dysgu Cymraeg neu'n awyddus i ddysgu'r iaith gyda'u plant? Mae Dysgu Cymraeg Caerdydd yn cynnal 'Prynhawn i'r Teulu' ar y cyd â Menter Caerdydd ac Amgueddfa Cymru, fydd yn llawn cyngor defnyddiol ar gyfer siaradwyr newydd a'r di-Gymraeg. Yn ogystal â chwrdd â rhieni eraill sy'n dysgu neu eisiau dysgu Cymraeg, bydd cyfle i glywed am yr ystod eang o lyfrau sydd ar gael i ddarllen gyda'r rhai bach. Bydd cynrychiolydd o S4C yn dangos y llu o adnoddau sy'n cyd-fynd â rhaglenni Cyw a bydd sesiwn ganu i'r holl deulu yng nghwmni 'Caru Canu'.

**Clwb Gwyddbwyll i Blant**

Mae Menter Caerdydd yn lansio Clwb Gwyddbwyll newydd i blant blynyddoedd 3-6, bob nos Wener ar ôl ysgol yn Hyb Treganna. Dyma glwb cynhwysol a chyfeillgar ar gyfer plant sydd eisiau dechrau chwarae gwyddbwyll neu sydd ag ychydig o brofiad yn barod. **Cost:** £5 am 4 wythnos ac mae'r sesiwn gyntaf ar 14 Mawrth.

**Amser Stori ar gyfer plant bach a'u teuluoedd**

O 10 Mawrth, cynhelir Amser Stori newydd yn Hyb Rhydypennau bob yn ail fore Llun yng nghwmni Nia, un o'n gwirfoddolwyr brwd. Bydd Nia yn disgwyl amdanoch yn y Llyfrgell am 11.00 am hanner awr o stori a sgwrs. Bydd y sesiynau wythnosol arferol yn parhau mewn lleoliadau amrywiol o gwmpas y brifddinas a'r Fro. Ewch i'r wefan i weld ble a phryd mae'r sesiwn fwyaf cyfleus i chi!
mentercaerdydd.cymru/cy/rhiant-a-phlentyn

Am fwy o fanylion am ein sesiynau ar gyfer oedolion, ewch i: mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

I ddarllen mwy am ein gweithgareddau i blant, ewch i: mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc

Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
Instagram: @mentercaerdydd / @menterbromorgannwg
E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888



# Difyrion Digidol

I ni fel siaradwyr Cymraeg yn enwedig, mae cefnogi gweithgareddau, digwyddiadau, nwyddau, gwasanaethau a busnesau Cymraeg a Chymreig yn bwysig iawn i ni. Ac yn gynyddol, mae llawer o'n bywydau beunyddiol yn cael ei dreulio ar y We trwy ein ffonau clyfar, gliniaduron a thabledi (nid tabledi meddyginiaethol rhag ofn i chi feddwl!).

O ganlyniad i hynny, mae yna ddwy wefan sydd o ddiddordeb i chi er mwyn bod ar byls yr hyn sydd yn digwydd yn ein cymunedau.

Nid oes raid bod yn ifanc i fwynhau gigs Cymraeg gan fod cyn gymaint o genre o gerddoriaeth yn bodoli yn y Gymraeg a rhywbeth at ddant pawb o bob oed - Tecwyn Ifan i Bwncath. Gwefan sydd wedi'i lansio yn ddiweddar yw Awni.cymru sy'n cynnwys holl gigiau cerddoriaeth sy'n digwydd yng Nghymru a thu hwnt. 'Cer i ffeindio gig' yw'r frawddeg agoriadol. Mae'r map yn cynnwys degau o gigs ac wrth i'r erthygl hon fynd i'r wasg, mi wnes i gyfrif 80 o gigiau Cymraeg yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Denmarc, Sbaen a Gwlad Belg. Yr hyn sy'n dda am y wefan yw eich bod yn gallu gweld lle ar y map y mae'r gigs. Pan oeddwn i'n mynd yn gyson iawn i gigiau led-led Cymru, bryd hynny, fe roedd y gigiau wedi eu crynhoi rhwng Caerdydd, Caerfyrddin, Aberystwyth a Chaernarfon. Ac mewn gwirionedd, nid yw'r darlun wedi newid llawer, mae Caernarfon, Caerfyrddin a Chaerdydd yn parhau i ddenu crynhoad dda o gigs, er fod yna ddim cymaint yn Aberystwyth, ond cyfran dda i weld yn y Cymoedd sydd i'w groesawu. A'r hyn sy'n ddifyr ydi fod sawl gig y tu allan i Gymru ac mewn sawl gwlad ar dir mawr Ewrop. Arwydd o ddylanwad cadarnhaol y We ar y Sîn Gerddoriaeth Gymraeg o bosib? Ond mae'n dangos fod y Sîn Gerddoriaeth Gymraeg fyw yn ffynnu ac fod posib fwy neu lai fynychu gig bron ar garreg eich drws - o'r Bala i'r Porth yn y Rhondda, o Gaerfyrddin i Wrecsam. Ac os ydych yn trefnu gig, fe allwn ei gofrestru ar y map digidol. Ewch i chwilota'r map: https://awni.cymru/

Mae'r Sîn Gerddoriaeth Gymraeg yn gyfraniad mawr i'r diwylliant Cymraeg, ac yr un mor wir yw'r busnesau a'r cwmnïau sy'n gweithio ac yn hybu eu hunain yn y Gymraeg. Mae yna wefan newydd hanfodol yng Ngwynedd sy'n rhoi llwyfan i fusnesau sydd yn ymfalchïo yn y Gymraeg. Mae'n wir i ddweud fod hyn yn unigryw, ac fel arfer mae'r pwyslais ar ddwyieithrwydd. Mae Gwynedd.cymru yn gyfeiriadur ar y We sy'n rhestru busnesau o fewn ffiniau Gwynedd sy'n dathlu ac yn ymfalchïo'r Gymraeg. Y mae'r sylfaenwyr yn grediniol fod yna fwlch sylweddol mewn hyrwyddo busnesau sy'n gweithredu'n Gymraeg, yn fewnol ac yn allanol. Yn ôl y wefan, "Mae Gwynedd.Cymru yn safle sy'n arddangos mentrau cymdeithasol a busnesau sy'n defnyddio'r Gymraeg fel rhan gyfannol o'u gweithgareddau bob dydd. Mae'n wasanaeth rhad ac am ddim i unrhyw unigolyn, masnachwr unigol neu grefftwr o Wynedd ddod yn werthwr, ac ychwanegu nwyddau neu wasanaethau yn ein marchnad." Ymhlith y busnesau sy'n cael eu hysbysebu eisoes yw Cigyddion OG Owen yng Nghaernarfon; Y Llofft yn Y Felinheli; Caffi Meinir yn Nant Gwrtheyrn, Awen Meirion yn Bala; Antur Stiniog – y Tŷ Coffi ym Mlaenau Ffestiniog.

Byddai'n dda gallu efelychu neu ehangu'r wefan hon i bob rhan o Gymru – gan greu rhwydwaith eang a llwyfan i'r busnesau sy'n rhagori wrth greu awyrgylch Gymraeg, yn chwarae cerddoriaeth Gymraeg, yn cyfathrebu'n Gymraeg ac yn gynnig gwasanaethau a nwyddau yn y Gymraeg. Yn y pen draw, mae pawb yn elwa, o'r diwylliant i'r economi leol ac fel yn achos y gigiau Cymraeg, maent yn creu a chryfhau gwagleoedd i'r Gymraeg.

Os ydych yn fusnes sy'n gweithredu yn y Gymraeg yng Ngwynedd, ewch ati i hysbysbu eich gwasanaeth neu nwyddau ar y wefan hon neu ewch i chwilio am eich busnes lleol: https://gwynedd.cymru/

*Deian ap Rhisiart*



# AGOR Y LLYFR

## (gwaith ysgolion Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd)

**Sssssss!**

Dyna'r sŵn oedd yn diasbedain trwy neuaddau rhai o ysgolion cynradd Cymraeg Caerdydd yn ystod Chwefror wrth i dîm Agor y Llyfr Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd gyflwyno hanes anufudd-dod Adda ac Efa yng ngardd Eden, anufudd-dod arweiniodd at ddifetha'r berthynas rhwng pobl a Duw, rhwng pobl a'i gilydd, a rhwng pobl a'r byd. Cafodd rhai o'r disgyblion gyfle i gyflwyno anifeiliaid (teganau meddal) i'w henwi gan Adda, gan dderbyn sticer yn wobr am eu gwaith. Dyna hwyl oedd ymateb i'r gair 'neidr' ac ymddangosiad yr anifail twyllodrus hwnnw gyda sŵn hisian uchel! Wrth gloi mewn gweddi gofynnwyd am help gan Dduw i ddewis gwneud yr hyn sy'n iawn.

Bydd y tîm yn parhau'r gwaith pwysig yma yn ystod ail hanner y tymor sy'n arwain at hanes y Pasg. Da dweud ein bod wedi croesawu aelodau newydd i'r tîm ond os oes diddordeb gan eraill neu os oes ysgolion eraill am dderbyn ymweliad, cysylltwch ag Alun Tudur (atudur@gmail.com).



# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

**John Parry-Jones sy'n cloriannu dechrau cymysglyd Clwb Cymry Caerdydd i'r flwyddyn**

Gyda'r gêm gwpan fawr ar y gorwel, a'r bechgyn heb chwarae ers dechrau mis Rhagfyr, roedd hi'n hanfodol cael gêm i adennill y safonau ro'n ni wedi eu gweld cyn y Nadolig. Ond gohiriwyd gêm gynta'r mis oherwydd bod caeau Pontcanna wedi rhewi. Taith i Lanilltud Fawr oedd ar y penwythnos canlynol, a diolch i'r drefn roedd y cae yn berffaith, felly cyfle i ymarfer y symudiadau cyn y daith i Aberteifi.



Er ein bod ni wedi eu curo o dros hanner cant o bwyntiau ym mis Hydref, ro'n nhw'n wrthwynebwyr peryglus, ond roedd y Clwb ar eu gorau yn enwedig yn ystod yr hanner cyntaf, ac roedd y gêm ar ben ar yr egwyl a chafwyd buddugoliaeth o 50-19. Roedd hi'n llwyfan perffaith ar gyfer y daith i'r Gorllewin.



O bryd i'w gilydd, ond heb fod yn aml, does gen i ddim awydd o gwbl i grynhoi hynt a helynt y Clwb ar y Sadwrn blaenorol. Felly mai hi nawr wrth ystyried rhoi ar bapur amlinelliad o ddigwyddiadau'r daith i Aberteifi yn y Cwpan.

Mae'n mynd i fod yn boenus, ond bant â ni!

Dechreuodd y dydd yn berffaith. Roedd y garfan yn ddigon agos at fod ar ei chryfa', ac roedd y bws yn llawn dop wrth adael Pontcanna. Gyda'r tywydd yn oer ond yn sych, doedd dim esgus ac roeddem yn hyderus. Cyfiawnhawyd yr hyder hynny yn y chwarter awr gyntaf, gyda'r Clwb yn rhedeg yn bwerus ac yn bylchu'n gyson wrth groesi am ddau gais cynnar i agor mantais o 12-0. Roedd hi bron yn rhy hawdd.

Ond yna, bu newid! Ymosododd y tîm cartref o ddyfnder, a gorffennwyd y symudiad efo cic gosb lwyddiannus iddyn nhw, a cherdyn melyn i ni. Pum munud yn ddiweddarach, a chroesodd Aberteifi am eu cais cyntaf, ac yn anesboniadwy, roedd y fantais wedi'i gwtogi i 12-10 ar yr egwyl. Ro'n i'n dal yn dal y hyderus, ond roedd yr holl fomentwm gyda'r tîm cartref erbyn hyn, ac roedd cic gosb lwyddiannus arall yn ddigon i fynd â nhw i'r blaen, ac yna, gyda rhyw 20 munud i fynd, trosgais arall. Roedd Aberteifi wedi sgorio 20 pwynt heb i ni sgorio'r un, ac roedd mynydd o'n blaenau.

Ond gyda 10 munud i fynd, hyrddiodd pac y Clwb ei ffordd dros y llinell gais, a gyda throsiad cyfforddus, roedd hi'n 20-19 i Aberteifi, a digon o amser i adfer y gêm. Ond er y cafwyd un cyfle hwyr, roedd y cyfle a'r rhediad yn y cwpan wedi mynd. Wrth gwrs rhaid talu teyrnged i Aberteifi oedd yn llawn haeddu'r fuddugoliaeth wedi brwydro nôl o'r dechreuad ofnadwy, ond i ni roedd e'n gyfle arall oedd wedi llithro o'n gafael.

Ar ôl y golled yn Aberteifi, cawsom hwb mawr yn Lecwydd yn erbyn Treganna yr wythnos ganlynol. Mewn perfformiad awdurdodol arall, croesodd y bechgyn am naw cais heb i'r tîm cartref fygwth ein llinell ni mewn buddugoliaeth o 59-3.

Daeth y mis i ben gyda cholled siomedig arall yn Llantrisant. Er gwaetha' absenoldeb sawl un o'r garfan, ro'n ni'n edrych yn ddigon cryf ar bapur i ddal gafael ar ein statws ar frîg y tabl. Llantrisant gafodd y gorau o'r munudau agoriadol, ac ymhen hanner awr, ro'n ni wedi ildio dwy gais ac ar ei hôl hi o 14-0. Ond doedd dim panig, a gyda chais cyn yr hanner yn dilyn cic gosb lwyddiannus, roedd hi'n 14-10 wrth droi. Er i ni fwynhau mwyafrif y diriogaeth yn ystod yr ail hanner, dim ond un cais a gafwyd, a gyda'r eiliadau'n cilio, pwynt o fantais oedd gyda ni o 15-14. A dyna pryd llwyddodd maswr Llantrisant â chic adlam, ac roedd y gêm ar ben. Siom, ond perfformiad canmoladwy wrth ystyried yr holl newidiadau.

Gohiriwyd yr unig gêm oedd wedi ei threfnu ar gyfer mis Chwefror yn erbyn Treharris. Ry'n ni'n agosáu at adeg allweddol y tymor a bydd rôl allweddol gan y cefnogwyr. Mae criw helaeth o gyn-chwaraewyr wedi bod yn dilyn y Clwb dros y tymor hyd yma, ac ry'n ni'n gobeithio'n fawr y byddwch yn gallu bod yn bresennol dros yr wythnosau nesa i ychwanegu eich llais er mwyn i ni sicrhau'r nod o ddyrchafiad.